

# **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd) Adran Achosion Brys ac Uned Penderfyniadau Clinigol Ysbyty'r Tywysog Siarl**

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15  
Medi 2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr  
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	3
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	4
3.	Yr hyn a ganfuom.....	6
	Ansawdd profiad y claf .....	7
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf? .....	37
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	38
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	39
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	40
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	90

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 13, 14 a 15 Medi 2021. Ymwelwyd â'r safleoedd a wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Adran Achosion Brys
- Yr Uned Penderfyniadau Clinigol

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol AGIC, dau arolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r arolygiad ganolbwyntio ar yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn sgil pryderon sylweddol a dderbyniwyd gan AGIC mewn perthynas â staffio. Fodd bynnag, wrth gyrraedd yr uned, cawsom wybod bod brigiad o achosion o COVID-19 yn yr ysbyty a bod cleifion oedd wedi cael canlyniad COVID-19 positif yn aros yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad i ganolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Achosion Brys, gyda ffocws cyfyngedig ar yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Yn ogystal, yn seiliedig ar y risg i aelodau'r tîm arolygu ac i leihau nifer yr ymwelwyr yn yr ysbyty, penderfynwyd y byddai hanner y tîm arolygu yn cael ei leoli oddi ar y safle yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful, er mwyn cynnal agweddau ar yr arolygiad o bell. Gadawodd hyn wedyn un uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol AGIC, ac un adolygydd cymheiriaid clinigol i gynnal yr agweddau ar yr arolygiad ar y safle.

Roedd y Cyngor Iechyd Cymuned hefyd wedi rhannu pryderon gydag AGIC am brofiad cleifion tra'n defnyddio'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, a helpodd i lywio ein harolygiad.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar adeg ein harolygiad, canfuom fod yr Adran Achosion Brys, fel drws ffrynt i system ehangach, yn profi cyfnod o bwysau uwch yn sgil galw diarbed ar wasanaethau yn sgil y pandemig COVID-19. Roedd materion sylweddol ynglŷn ag argaeledd gwelyau a llif cleifion trwy gydol yr ysbyty. Gwnaethom gydnabod bod hwn yn amgylchedd heriol a dirboenus iawn i rai aelodau o staff, a oedd yn gweithio'r tu hwnt i'r gofyn mewn amgylchiadau eithriadol a heriol.

Canfuom nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â nifer o'r Safonau Iechyd a Gofal a gwnaethom bwysleisio meysydd o bryder sylweddol a allai gyflwyno risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Roedd ein prif bryderon yn cynnwys profiad gwael i gleifion ar draws yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol, lle na chynhaliwyd urddas cleifion drwy'r amser.

Gwelsom fod yr Adran Achosion Brys yn orlawn ac nid oedd risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli mewn modd priodol, gyda threfniadau atal a rheoli heintiau gwael.

Gwnaethom dynnu sylw at bryderon sylweddol ynghylch sawl agwedd ar y gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ni chawsom ein sicrhau bod yr holl brosesau a systemau ar waith yn ddigonol i sicrhau bod cleifion yn derbyn yn gyson safon dderbyniol o ofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod staff yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o dan amgylchiadau heriol a oedd yn creu pwysau mawr.

O ran ansawdd y rheolaeth ac arweinyddiaeth, canfuom fod diffyg ffocws yn y maes hwn ac nid oedd yn ddigon cadarn. Canfuom hefyd nad oedd y trefniadau arwain a llywodraethu ehangach, y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Adran Achosion Brys, yn cael effaith effeithiol neu gefnogol ar yr Adran Achosion Brys.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Staff ymrwymedig a gweithgar â chanolbwynt clir ar gleifion
- Mae brysbennu fel arfer yn drylwyr iawn
- Cyfathrebu rhwng meddygon a nyrsys
- Cynyddwyd staff yn yr Adran Achosion Brys yn ddiweddar
- Staff derbynfa ymrwymedig, cymwys a gweithgar
- Dulliau rheoli meddyginiaethau effeithiol, gan gynnwys rheoli cyffuriau a reolir
- Tîm glanhau neilltuedig yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol
- Tîm atal a rheoli heintiau angerddol ac ymrwymedig

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom feysydd o bryder sylweddol a allai gyflwyno risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r ystafell aros yn yr Adran Achosion Brys ac ar gyfer cael mynediad iddi
- Cyfleusterau annigonol i ymgymryd ag ymyriadau clinigol hanfodol
- Defnydd o'r ardal lle cynhelir asesiadau meddygon teulu i asesu cleifion sydd wedi cael canlyniad COVID-19 positif
- Diogelwch amgylcheddol cyffredinol
- Darpariaeth toiledau yn yr Adran Achosion Brys
- Staffio'r ardal bediatrig yn yr Adran Achosion Brys
- Amgylchedd yr ardal bediatrig
- Sgrinio a monitro cleifion
- Roedd staff yn anhapus ac yn ei chael yn anodd ymdopi â'u llwyth gwaith
- Arweinyddiaeth a llywodraethu ehangach y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Adran Achosion Brys

Trafodwyd y materion uchod â rheolwyr o'r bwrdd iechyd yn ystod ein cyfarfod adborth o'r arolygiad, a gynhaliwyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad, ac ymdriniwyd â nhw ar ôl hynny o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC. Roedd hyn yn golygu ysgrifennu at y bwrdd iechyd, cyn pen dau ddiwrnod ar ôl cwblhau'r arolygiad, yn amlinellu'r materion ac yn gofyn am ymateb ysgrifenedig cyn pen saith diwrnod. Cyfeirir at y materion sicrwydd ar unwaith, ac ymateb y bwrdd iechyd, yn fanwl yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Ar ddydd Iau 16 Medi 2021, gwnaethom gyfarfod ag uwch-reolwyr o'r bwrdd iechyd, a chydweithwyr o adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru, er mwyn trafod ein pryderon a cheisio sicrwydd gan y bwrdd iechyd y byddai'r materion o bryder yn cael sylw ar frys.

Gwnaethom gynnal cyfarfodydd pellach, a pharhau i ymgysylltu ag uwch-reolwyr o'r bwrdd iechyd, i fonitro'r cynnydd a wnaed mewn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

Yn ogystal â'r materion sicrwydd ar unwaith, canfuom hefyd fod angen i'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- Adolygu cynllun yr ystafell frysbenneu arfaethedig
- Adolygu'r polisi rheoli meddyginiaethau
- Darparu cabinetau cloadwy yn yr Adran Achosion Brys i gleifion gadw eu meddyginiaeth ynddynt
- Adolygu'r trefniadau rowndio bwriadol i sicrhau bod anghenion gofal cleifion sydd wedi cael eu hasesu fel cleifion sydd angen gofal, cymorth a goruchwyliaeth bersonol yn cael eu diwallu'n llawn bob amser
- Hyfforddiant staff
- Cymorth i staff a'u llesiant
- Sicrhau bod yr iPad at ddefnydd y cleifion yn gweithio

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ysbyty cyffredinol dosbarth ym Merthyr Tudful. Mae'n cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Fe'i hagorwyd yn swyddogol yn 1978. Agorwyd Canolfan Gofal Brys newydd yn 2012, a chymeradwywyd gwaith i ailwampio'r ysbyty cyfan yn llwyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013. Roedd y gwaith ailwampio wrthi'n cael ei wneud adeg yr arolygiad.

Mae'r ysbyty yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol brys aciwt a dewisol, gofal dwys a gofal coronaidd, gwasanaethau obstetreg dan arweiniad ymgynghorydd gydag uned gofal arbennig i fabanod, a meddygaeth bediatrig i gleifion mewnol dan arweiniad ymgynghorydd. Mae saith theatr llawdriniaethau. Mae'r ysbyty hefyd yn darparu gwasanaethau llawdriniaeth gê'n ac wyneb a llawdriniaeth y geg isranbarthol, ac ystod lawn o wasanaethau i gleifion allanol a ddarperir yn lleol a chan arbenigwyr sy'n ymweld, ac mae ganddo ystod eang o raglenni diagnostig.

Roedd yr Adran Achosion Brys yn cynnwys y canlynol:

- Derbynfya ac ystafell aros
- Ystafelloedd brysbenneu – lle mae cleifion yn cael eu hasesu er mwyn penderfynu pa rai yw'r mwyaf sâl ac mae'n rhaid eu trin yn gyntaf



- Man triniaeth ddydd (y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn fel y man mân anafiadau) – lle mae cleifion â mân anafiadau neu fân anhwylderau yn cael eu trin
- Man anafiadau difrifol – lle mae cleifion ag anafiadau difrifol yn cael eu trin
- Ardal ddadebru – lle mae'r cleifion mwyaf sâl neu'r cleifion â'r anafiadau mwyaf difrifol yn cael eu trin
- Ystafell driniaeth ac ystafell aros bediatrig ar wahân
- Ardal aros i gleifion sydd wedi cael canlyniad COVID-19 positif
- Ardal lle cynhelir asesiadau meddygon teulu

Lleolir yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn gyfagos i'r Adran Achosion Brys. Derbynnir cleifion i'r uned yn uniongyrchol o'r Adran Achosion Brys a thrwy atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu. Gallai fod angen archwiliadau, gweithdrefnau a gwaith sefydlogi pellach ar gleifion sy'n cael eu derbyn i'r Uned Penderfyniadau Clinigol cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r ward fwyaf priodol neu ysbyty arall, neu cyn iddynt gael eu rhyddhau adref.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwnaethom weld tystiolaeth o brofiadau gwael ar gyfer cleifion ar draws yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

Gwelsom dystiolaeth na chynhaliwyd urddas cleifion drwy'r amser yn yr Adran Achosion Brys.

Gwnaethom ganfod hefyd fod yr Adran Achosion Brys yn orlawn iawn. Roedd hyn yn cynnwys cleifion yn cael eu cadw mewn coridorau, ar droliâu yn yr ardal anafiadau difrifol, ac mewn cadeiriau yn y man mân anafiadau, am hyd at 24 awr a mwy.

Yn sgil statws COVID-19 yr Uned Penderfyniadau Clinigol, nid oeddem yn gallu cynnal trafodaethau â chleifion wyneb yn wyneb. Roedd y tîm ar y safle yn gallu cynnal

trafodaethau bras â rhai cleifion yn yr Adran Achosion Brys. Nodir eu sylwadau'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## **Gofal ag urddas**

Gwelsom dystiolaeth na chynhaliwyd urddas cleifion drwy'r amser yn yr Adran Achosion Brys.

Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cleifion yn cael eu cadw mewn coridorau, ar droliâu yn y man anafiadau difrifol, ac mewn cadeiriau yn y man mân anafiadau, am hyd at 24 awr a mwy, gyda rhai cleifion yn troi at gysgu ar y llawr
- Claf a oedd yn profi camesgoriad yng ngolwg llawn claf arall
- Dim ond un toiled ar gael i'r holl gleifion nad ydynt â COVID-19 yn yr Adran Achosion Brys, yr uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu, y clinig toriadau asgwrn, a'r ardal asesu ar gyfer cleifion â phroblemau gynaeolegol. Roedd hyn yn cynnwys cleifion oedd yn chwydu a rhai oedd â dolur rhydd a chleifion oedd yn profi camesgoriadau.

Cyfeirir at y materion hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Dywedodd dau glaf wrthym nad oeddent yn hapus gyda derbyn gofal yn y coridor. Dywedodd un wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn anurddasol a bod pawb yn gwybod ei fusnes a dywedodd claf arall y byddai wedi bod yn fwy cyfforddus mewn cell heddlu. Roedd y ddau glaf hyn yn derbyn therapi mewnwythiennol<sup>1</sup> yn weithredol yn yr ardal.

Gwnaethom weld meddygon a nyrsys yn rhoi sylw i anghenion cleifion yn y coridor. Roedd hyn yn cynnwys asesu ac mewn rhai achosion gwythien-bigo. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw archwiliadau personol yn cael eu cynnal a chafodd yr holl gleifion eu gorchuddio'n briodol gan flancedi.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

---

<sup>1</sup> Mae therapi mewnwythiennol yn dechneg feddygol sy'n rhoi hylifau, meddyginiaethau a maethiad yn uniongyrchol i wythien unigolyn.

Roedd ymweld yn gyfyngedig ar adeg yr adolygiad yn sgil cynnydd mewn achosion o COVID-19. Fodd bynnag, gallai cleifion â salwch angheuol gael ymwelwyr os oedd eu cyflwr yn cyfiawnhau hyn ac ond yn dilyn asesiad risg.

## **Gofal amserol**

Gwnaethom ganfod hefyd fod yr Adran Achosion Brys yn orlawn iawn. Roedd hyn yn cynnwys cleifion yn cael eu cadw mewn coridorau, ar drolïau yn yr ardal anafiadau difrifol, ac mewn cadeiriau yn y man mân anafiadau, am hyd at 24 awr a mwy. Dywedodd staff wrthym fod y sefyllfa wedi'i gwaethgu yn sgil diraddio gwasanaethau brys yn yr ysbytai cyfagos, sef Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr, sydd wedi arwain at fwy o gleifion yn mynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Disgrifiodd staff sut y byddai cleifion yn y man mân anafiadau, a oedd yn aros am wely i fod ar gael rhywle arall yn yr ysbyty, yn aml yn eistedd mewn cadair am gyfnodau hir ac, mewn rhai achosion, dros nos. Roedd cadeiriau'r ystafell aros yn caled ac yn anghyfforddus ac roeddent yn cyflwyno risg o niwed pwysu a niwed i feinwe i rai cleifion.

Dywedwyd wrthym fod rhai cleifion yn troi at orwedd a chysgu ar y llawr. Gwelsom dystiolaeth ffotograffig o hyn hefyd. Dywedodd rhai staff wrthym fod uwch-reolwyr wedi dweud wrthynt hwy am beidio â rhoi cleifion ar drolïau yn y man mân anafiadau a bod staff yn aml yn gwrthod dilyn y cyfarwyddyd hwn os oedd cleifion yno am gyfnodau hir. Nid yn unig y mae cleifion yn gorwedd ac yn cysgu ar y llawr yn anurddas, ond mae hefyd yn cyflwyno perygl croes-heintio a niwed i feinwe a pherygl baglu a chwympo.

Gwnaeth rhai staff ddisgrifio triniaeth cleifion a oedd yn aros am gyfnodau hir ar y cadeiriau yn y man mân anafiadau fel 'artaith' gan eu bod yn cael eu hamddifadu o gwsg a chysur yn aml.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

## **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o staff dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) yn yr Adran Achosion Brys, sef un nyrs ac un cynorthwydd gofal iechyd.

Gwnaethom geisio defnyddio'r iPad at ddefnydd y cleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol i siarad â chleifion yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, cawsom broblemau gyda hyn ac nid oeddem yn gallu cysylltu. Mae hyn yn peri pryder gan y gallai olygu nad yw cleifion yn gallu cysylltu â'u perthnasau gan ddefnyddio'r ddyfais hon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr iPad a ddarperir at ddefnydd y cleifion yn gweithio a bod cleifion yn gallu ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau a'u ffrindiau.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ni chawsom ein sicrhau y rheolir yr holl risgiau i iechyd a diogelwch yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn briodol.

Canfuom nad oedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn amddiffyn cleifion, aelodau o'r cyhoedd na staff.

Canfuom hefyd nad oedd pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom nad oedd risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n briodol yn yr Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn cyflwyno risg sylweddol o niwed i gleifion ac aelodau o'r cyhoedd.

Nid oedd unrhyw staff clinigol wedi'u lleoli yn yr ystafell aros ac ni chynhaliwyd unrhyw wiriadau parhaus ar unrhyw un o'r cleifion yn yr ardal hon.

Dibynnwyd ar staff y dderbynfa i rybuddio staff am unrhyw gleifion yr ymddangoswyd eu bod yn sâl iawn. Yn ogystal, nid yw staff yn gallu gweld yr ystafell aros gyfan yn sgil y cynllun a manau dall. Rhoddodd y staff sawl enghraifft lle roedd cleifion wedi gwaethygu ac wedi llewygu heb neb yn sylwi yn yr ystafell aros.

Nid oedd gan staff y dderbynfa unrhyw fodd o alw am gymorth brys yn gyflym. Roedd llinell ffôn ganddynt ond nid oedd hon drwy'r amser yn ffordd gyflym o gysylltu â staff

yn yr Adran Achosion Brys. Nid oedd cloch frys ar gyfer argyfyngau fel llewygu neu faterion diogelwch. Dywedwyd wrthym fod y derbynnydd, ar un achlysur, yn gorfod dibynnu ar aelod o'r cyhoedd i'w helpu i gefnogi claf a oedd wedi llewygu yn yr ystafell aros.

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn aml yn blaenoriaethu a chyfeirio cleifion i'r manau triniaeth amrywiol yn yr Adran Achosion Brys, a elwir yn ffrydio. Nid yw'r arfer hon yn adlewyrchu canllawiau a dderbynnir yn genedlaethol, sy'n glir y dylai ffrydio gael ei wneud gan staff clinigol.

Nid yw staff y dderbynfa wedi derbyn hyfforddiant ar frysbenneu neu wybodaeth am ba gyflyrau a symptomau y byddai angen iddynt eu hamlygu a'u huwchgyfeirio at y staff nyrsio. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y byddent yn defnyddio'u barn bersonol yn y sefyllfa hon. Fodd bynnag, gwnaethom weld dau achos lle daeth cleifion â symptomau a oedd angen huwchgyfeirio. Fodd bynnag, ni wnaeth staff y dderbynfa gydnabod hyn gan nad oedd y symptomau'n amlwg i rywun nad yw wedi cael yr hyfforddiant addas.

Ni chafodd yr ystafell aros COVID-19 ei staffio. O ganlyniad, nid oedd cleifion yn yr ardal hon yn cael eu goruchwyllo. Ar un achlysur yn ystod ein harolygiad, ni sylwyd ar gyflwr claf a oedd yn gwaethygu ac, o ganlyniad, roedd yn rhaid iddo gael ei symud i'r ardal ddadebru.

Dywedwyd wrthym nad oes amser gan y nyrs â gofal erioed i fynychu ystafell aros yr Adran Achosion Brys gan ei bod yn brysur yn cwmpasu'r adran gyfan, a oedd yn brysur iawn, yn cwmpasu arwynebedd mawr, ac â chynllun cymhleth.

Disgrifiodd y staff yr adran fel 'anrhefn' a 'pharth rhyfel'. Roedd y staff yn ofidus iawn am y gorlenwi a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo ei fod yn rhoi bywydau mewn perygl.

### **Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

Canfuom fod yr ystafell frysbenneu wedi'i lleoli i ffwrdd o brif ystafell aros yr Adran Achosion Brys. O ganlyniad, nid oedd y nyrsys brysbenneu yn gallu goruchwyllo'r cleifion sy'n aros i gael eu gweld. Dywedwyd wrthym yr oedd yr ystafell frysbenneu yn mynd i gael ei symud i leoliad arall. Wrth weld â'r man arfaethedig, canfuom ei fod yn gyfyngedig iawn ac mae'n anodd i gleifion sydd â phroblemau symudedd neu sy'n ddefnyddwyr cadair olwyn ei gyrchu. Gwnaethom nodi hefyd fod un drws yn unig i'r ystafell frysbenneu arfaethedig, a allai beryglu diogelwch staff os yw cleifion yn dod yn ymosodol neu fgythiol wrth gael eu brysbenneu. Rydym yn awgrymu bod y bwrdd iechyd yn ailystyried y defnydd o'r lleoliad hwn fel y man brysbenneu arfaethedig ac yn ystyried defnyddio ardal fwy sy'n fwy hygyrch.

Ymgymerir â gwaith brysbennu gan ddefnyddio System Frysbennu Manceinion<sup>2</sup> a chefnogir y nyrs frysbennu gan gynorthwydd gofal iechyd. Mae hyn yn caniatáu i arsylwadau gael eu cofnodi, i glwyfau gael eu glanhau, ac i brofion gwaed ac electrocardiogram gael eu cyflawni. Cynhelir asesiadau cyflwr croen hefyd fel rhan o'r broses frysbennu os oes angen. Gwelir hyn fel arfer da, gan ei fod yn galluogi staff i gofnodi cyflwr croen claf yn gynnar i fonitro dirywiad posibl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall yr holl weithdrefnau hyn arafu'r broses frysbennu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cynllun yr ystafell frysbennu arfaethedig i sicrhau ei bod yn addas at ei diben ac yn hygyrch i bobl â symudedd gwaed, ac nad yw'n perygl diogelwch staff.

### Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwnaethon ganfod nad oedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn amddiffyn cleifion, aelodau o'r cyhoedd a staff.

Canfuom fod cynllun yr Adran Achosion Brys yn gymhleth. Roedd cleifion mewn sawl man gwahanol, wedi'u gwahanu gan goridorau prysur. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i staff gerdded trwy fannau gwahanol yr adran i gyrraedd lle mae angen iddynt fod. Nid oedd unrhyw system unffordd ar waith, a oedd yn golygu bod nifer y bobl yn sylweddol fwy ym mhob rhan o'r adran. Dywedwyd wrthym fod adolygiad o gynllun yr Adran Achosion Brys yn mynd rhagddo ac mae gwaith gwella wedi'i amserlennu. Fodd bynnag, mae cynllun cyfredol yr Adran Achosion Brys yn cyflwyno risg sylweddol o groes-heintio.

Canfuom fod trefniadau ar gyfer glanhau yn dilyn achos o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn aneglur. Byddai rhai ardaloedd yn cael eu glanhau'n fwy trylwyr â hylif glanhau penodol a'u sychu ddwywaith. Byddai rhai ardaloedd yn cael eu glanhau gan ddefnyddio system anwedd hydrogen perocsid. Dywedodd staff wrthym, yn aml, mai

---

<sup>2</sup> System Frysbennu Manceinion yw un o'r systemau brysbennu a ddefnyddir amlaf yn Ewrop. Mae'n galluogi nyrsys i aseinio blaenoriaeth glinigol i gleifion, yn seiliedig ar arwyddion a symptomau a gyflwynir, heb wneud unrhyw ragdybiaeth am y diagnosis sylfaenol.

dim ond y glanhau mwy trylwyr a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan fod hyn yn cymryd llai o amser ac felly'n gwella llif.

Gwelsom sawl enghraifft o aelodau staff yn peidio â glynu at ganllawiau lleol a chenedlaethol ar gyfer y defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn cynnwys staff yn gwisgo'r lefelau a mathau anghywir o gyfarpar diogelu personol a masgiau naill ai'n cael eu gwisgo'n anghywir neu, mewn rhai achosion, dim o gwbl. Gwelwyd staff hefyd yn symud rhwng ardaloedd yn yr Adran Achosion Brys heb newid cyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd yn cynnwys achosion a amheuir ac achosion a gadarnhawyd o COVID-19. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd da o gyfarpar diogelu personol a hylendid dwylo gan staff yn yr ardal frysbenneu a gwnaethom nodi bod offer yn cael ei lanhau rhwng cleifion.

Gwelsom fod mannau gwisgo a diosg dynodedig annigonol yn yr Adran Achosion Brys, gyda staff yn methu â gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn ddiogel mewn ardaloedd penodol, gan gynyddu'r risg o groes-heintio. Yn ogystal, roedd rhai staff yn aneglur ynghylch pa lefel o gyfarpar diogelu personol oedd ei hangen ym mhob ardal, a phryd dylent newid eu cyfarpar diogelu personol.

Gwelsom rai staff, yn allanol i'r Adran Achosion Brys, yn gwisgo masgiau ffabrig ac nid y masgiau wyneb gwrth-hylif gofynnol, er gwaethaf y ffaith fod achosion positif o COVID-19 yn bresennol yn yr adran.

Gwelsom nad oedd rhai staff yn golchi eu dwylo'n gywir wrth adael a mynd i mewn i ardaloedd yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol, er gwaethaf y ffaith fod achosion o COVID-19 yn bresennol yn y ddwy ardal. Yn ogystal, gwelsom na chafodd cleifion ac ymwelwyr eu herio neu na ofynnid iddynt olchi eu dwylo wrth fynd i mewn i'r ardaloedd hyn.

Canfuom fod y trefniadau ar gyfer gwahanu cleifion sydd wedi cael canlyniad positif a gadarnhawyd o COVID-19, neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19, yn annigonol ac roeddent yn cyflwyno risg sylweddol o groes-heintio i gleifion, aelodau'r cyhoedd a'r staff. Yn ogystal, canfuom nad oedd systemau dirprwyo staff yn sicrhau mai staff penodol yn unig sy'n gofalu am gleifion sydd wedi cael canlyniad positif a gadarnhawyd o COVID-19, neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19, yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol, ac yn ardaloedd anafiadau difrifol, brysbenneu a dadebru'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn golygu bod rhai staff yn darparu gofal i gleifion sydd wedi cael canlyniad positif a chanlyniad negatif ar gyfer COVID-19. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o groes-heintio a niwed i'r cleifion yn sylweddol.

Dywedodd staff wrthym fod y mesurau ar gyfer gwahanu cleifion yn annigonol ac yn 'anhrefnus'. Gwnaethom ddisgrifio bod dan bwysau gan uwch-reolwyr, o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys, i gyfaddawdu safonau atal a rheoli heintiau ac arferion gorau er mwyn cynyddu llif cleifion trwy'r adran. Dywedodd staff wrthym eu bod yn poeni am ddal COVID-19 ac roeddent yn teimlo'n bryderus am y cleifion. Dim ond un aelod o

staff y gwnaethom siarad ag ef a ddywedodd y byddai'n hapus i'w berthynas gael ei thrin yn yr ardaloedd lle roedd cymysgedd o achosion.

Roedd y broses ar gyfer asesu statws COVID-19 cleifion wrth gyrraedd yr adran yn arwain at gleifion a oedd wedi cael canlyniad COVID-19 positif yn cyrchu'r brif ystafell aros ac yn dod i gysylltiad â chleifion oedd wedi cael canlyniad COVID-19 negatif a chleifion sy'n agored i niwed yn glinigol. Yr unig arweiniad gweladwy i gleifion â symptomau COVID-19, neu'r rhai sydd wedi cael canlyniad positif, oedd arwydd ar y drws ffrynt yn eu hysbysu i fynd i'r ystafell aros COVID-19 neilltuedig trwy fynedfa arall. Nid oedd arwyddion clir i'r fynedfa amgen hon ac nid oedd yn weladwy o brif fynedfa'r Adran Achosion Brys. O ganlyniad, gwelwyd cleifion â chanlyniad COVID-19 positif a chleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 yn mynd i mewn i brif ystafell aros yr Adran Achosion Brys heb gael eu herio. Yn ogystal, gwelsom fod yn rhaid i gleifion gerdded heb gwmni a heb gymorth, o brif fynedfa'r Adran Achosion Brys, ar hyd llwybr y tu allan i adeilad yr ysbyty er mwyn cael mynediad at yr ystafell aros i gleifion â chanlyniad COVID-19 positif a chleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19. Nid oedd yr ardal hon yn cael ei staffio gan staff nyrsio neu staff meddygol ac nid oedd yn weladwy yn hawdd i staff y dderbynfa. Roedd yr arwyddion yn yr ardal hon yn annigonol ac nid oeddent yn nodi'n glir ei bod yn ardal COVID-19 risg uchel. Cyflwynodd hyn risg o groes-heintio.

Gwelsom glaf sâl iawn yn mynychu prif ystafell aros yr Adran Achosion Brys er mwyn cofrestru. Rhoddodd y claf wybod i'r staff ei fod wedi cael canlyniad positif am COVID-19. Cafodd y claf ei gyfeirio allan o'r adran gan staff y dderbynfa. Gwnaeth y claf gerdded i'r ystafell aros COVID-19 neilltuedig heb gwmni. Nid oedd unrhyw aelod o staff i'w gyfarfod yn yr ystafell aros COVID-19 ac roedd yn rhaid i'r nyrs frysbenneu o'r brif Adran Achosion Brys fynd i'r ystafell aros COVID-19 i asesu'r claf. Mae hyn yn cyflwyno risg o groes-heintio a niwed i gleifion.

Gwelsom fod cleifion yn ciwio heb gadw pellter cymdeithasol ar adeg galw brig pan oedd oedi mewn mewngofnodi yn nerbynfa'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn eu rhoi'n agos at ei gilydd ac roedd yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Dywedwyd wrthym y byddai cleifion â chanlyniad positif am COVID-19, yr oedd angen iddynt dderbyn gofal ar droli, yn cael eu rhoi yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol gyfagos. Fodd bynnag, nid oedd hyn drwy'r amser yn wir a chafodd rhai cleifion â chanlyniad positif am COVID-19 eu rhoi yn y man anafiadau difrifol o fewn yr Adran Achosion Brys. Rhoddodd staff yr Adran Achosion Brys wybod inni fod hwn yn arfer rheolaidd ac roeddent yn aml yn rhoi achosion symptomatig ac achosion a gadarnhawyd o COVID-19 yn y man anafiadau difrifol ochr yn ochr â chleifion oedd wedi cael canlyniad negatif am COVID-19 a'r rhai a nodwyd eu bod yn agored i niwed yn glinigol.

Gwelsom hyd at wyth claf yn aros ar droliâu yn y coridor o fewn man anafiadau difrifol yr Adran Achosion Brys a dywedodd staff wrthym fod hyn yn digwydd yn aml.



Gwelsom staff yn gweithio yn y coridor hwn a oedd ond yn gwisgo masgiau wyneb i'w hamddiffyn wrth symud o gwmpas a rhyngweithio â'i gilydd a chleifion. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff ond yn gwisgo ffedogau, menig a chyfarpar diogelu llygaid pe baent yn rhoi gofal i glaf ar bellter o lai na dau fetr. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith nad oedd llawer o lif awyr yn y coridor a bod cleifion â symptomau COVID-19 yn bresennol.

Gwnaethom dderbyn gwybodaeth anghyson gan uwch-reolwyr mewn perthynas â rheoli cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 neu gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 yn yr Adran Achosion Brys. Cawsom wybod, pe bai angen triniaeth lefel dadebru ar y cleifion hyn, y byddent ond yn cael eu trin mewn ciwbicl yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol a ddynodwyd at y diben penodol hwn. Dywedodd y nyrs arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau wrthym hefyd y defnyddir y ciwbicl yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ar gyfer pob claf sydd â chanlyniad positif am COVID-19 neu yr amheuir bod ganddo COVID-19, ac nad oedd unrhyw gleifion o'r fath yn derbyn gofal yn yr ardal ddadebru. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym nad oedd hyn yn wir drwy'r amser a chafodd cleifion o'r fath eu rhoi'n rheolaidd yn y man anafiadau difrifol, lle mae un ystafell yn unig â drws, neu'r ardal ddadebru, gan gynnwys weithiau pan oedd cleifion â chanlyniad negatif am COVID-19 yn bresennol. Gosodwyd llenni ar bob ciwbicl arall yn lle drws, sy'n gwneud y gwaith o ynysu cleifion yn llai effeithiol. Gwnaethom siarad â chwe nyrs ynglŷn â'r mater hwn. O'r chwe nyrs, dywedodd pump ohonynt wrthym nad oeddent erioed wedi gweld ciwbicl yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn cael ei ddefnyddio a bod yr ardal ddadebru drwy'r amser yn cael ei defnyddio ar gyfer y cleifion hyn. Dywedodd un aelod o staff ei fod ond wedi gweld ystafell yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn cael ei defnyddio unwaith at y diben hwn.

Dywedodd aelodau'r tîm uwch-reolwyr wrthym hefyd nad oeddent yn ystyried adfywio cardio-pwlmonaidd fel gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau,<sup>3</sup> ac y byddent yn cynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau ar gleifion yn yr ardal ddadebru pan nad yw eu statws COVID-19 wedi'i gadarnhau, gan y byddent yn ystyried y cleifion hyn fel rhai sydd wedi cael canlyniad negatif am COVID-19 hyd nes bod profion yn cadarnhau fel arall. Gwnaethom gwestiynu priodoldeb yr arfer hwn gan fod adfywio cardio-pwlmonaidd yn debygol o gynhyrchu aerosolau a allai gyflwyno risg i staff, yn enwedig pan oedd statws COVID-19 y claf yn anhysbys.

---

<sup>3</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn disgrifio gweithgaredd a all arwain at ryddhau gronynnau bach yn yr awyr (aerosolau) neu ddefnyddiau. O dan amodau penodol, gallai'r aerosolau gynnwys meintiau y gellir eu trosglwyddo o ddeunydd feirysol.

Canfuom nad oedd digon o arwyddion i nodi bod yr ardal ddadebru yn ardal 'goch' sy'n cyflwyno risg uchel o safbwynt COVID-19. Roedd dwy fynedfa at yr ardal hon lle y gallai aelodau'r cyhoedd neu aelodau staff eraill, nad ydynt wedi'u dirprwyo i weithio yn yr ardal hon, fynd i mewn.

Roedd yr ardal ddadebru hefyd yn rhannu ystafell gysleustodau lân ac ystafell cadw cyffuriau gyda'r man anafiadau difrifol. Roedd hyn yn cyflwyno risg o groes-heintio, gan fod staff o'r ddwy ardal yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'i gilydd yn rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar yr uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu yn yr Adran Achosion Brys. Defnyddir yr ardal hon i asesu a thrin cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan eu meddyg teulu. O fewn yr ardal hon, roedd ystafell hefyd a ddefnyddir gan y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, rhwng 5pm ac 8am, er mwyn lletya ac asesu cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19. Dywedwyd wrthym y cedwir cleifion o'r Adran Achosion Brys yn rheolaidd yn yr uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu dros nos i greu capasiti ymchwydd ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys rhai cleifion a roddwyd ar droliâu yn y coridor y tu allan i'r ystafell hon. Roedd angen i gleifion sy'n mynychu'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau fewngofnodi gyntaf wrth dderbynfa'r Adran Achosion Brys, wedyn cerdded trwy ystafell aros yr adran a mynd trwy ran o'r man mân anafiadau a'r ardal frysbenneu. Mae hyn yn rhoi nifer o gyfleoedd i'r cleifion hyn ddod i gysylltiad â staff a chleifion heb COVID-19, gan felly gynyddu'r risg o groes-heintio.

Dywedodd rhai staff wrthym nad oeddent byth yn gweld aelodau'r tîm arbenigol atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys ac mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i'r risg heintio uchel yn sgil cymysgu cleifion â chanlyniadau positif a negatif am COVID-19 yn yr un ardaloedd. Fodd bynnag, dywedodd y nyrs arweiniol atal a rheoli heintiau wrthym y byddai aelodau'r tîm atal a rheoli heintiau'n ymweld â'r Adran Achosion Brys bob dydd.

Yn ystod y daith o gwmpas yr Adran Achosion Brys, canfuom sawl mater atal a rheoli heintiau mwy cyffredinol. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Lluch lefel llygaid yn bresennol mewn sawl ardal, gan gyflwyno cronfa heintio bosibl
- Biniau cynfasau yn gorlifo â chynfasau budron
- Cadeiriau wedi torri gyda rhwygau yn y ffabrig
- Plwg ar ddarn o offer meddygol wedi'i ddal ynghyd â llindeg tafladwy a thâp microfandwll a oedd yn frwnt
- Biniau offer miniog yn gorlifo
- Poteli dŵr a chaniau diodydd wedi'u taflu

Gwelsom na lynid at arweiniad cadw pellter cymdeithasol yn sgil gorlenwi eithriadol mewn sawl ardal o'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn cynnwys cleifion yn eistedd ar bwys ei gilydd. Cawsom dystiolaeth ffotograffig o hyn ac o gleifion yn cysgu ar

drolïau ar bwys ei gilydd gyda llai na hanner metr rhyngddynt. Roedd y lluniau hefyd yn dangos golygfeydd o orlenwi eithriadol gyda chleifion yn rhannu offer megis stondinau diferwyr a blancedi. Mae'r arferion hyn yn cynyddu'r risg o groes-heintio'n sylweddol.

Gwelsom nad oedd ardaloedd clinigol drwy'r amser yn cael eu glanhau a'u tacluso rhwng defnydd cleifion.

Gwelsom hefyd nad oedd trolïau yn cael eu tacluso a'u glanhau mewn modd amserol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom gynfasau budron ar un troli gwag a gwelwyd matres o droli arall ar lawr y coridor.

Gwelsom fod rhaniad wedi'i osod mewn ymgais i wahanu cleifion â chanlyniadau positif a negatif am COVID-19 yn ystafell aros yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gleifion sydd wedi cael eu rhoi ar yr ochr o'r ystafell aros i gleifion â chanlyniad COVID-19 negatif yn methu â defnyddio'r toiledau, sydd wedi'u lleoli ar yr ochr o'r rhaniad i gleifion â chanlyniad COVID-19 positif. Roedd hyn yn golygu bod cleifion â chanlyniad COVID-19 negatif yn gorfod defnyddio'r toiled sydd wedi'i lleoli ger yr ystafell frysbenneu. Roedd y toiled hwn hefyd at ddefnydd yr holl gleifion yn y man mân anafiadau, yr uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu, y clinig toriadau asgwrn, a'r ardal asesu ar gyfer cleifion â phroblemau gynaeolegol. Arweiniodd hyn yn aml at giwiau'n ffurfio y tu allan i'r ardal frysbenneu. Dywedwyd wrthym gan staff am achlysur pan oedd claf wedi dioddef achos o amymataliaeth ysgarthol gan oedd yn rhaid aros yn rhy hir am y toiled. Roedd y staff hefyd yn bryderus y defnyddir yr un toiled hwn am bob claf, gan gynnwys y rhai sy'n chwydu a rhai sydd â dolur rhydd a chleifion sy'n cael camesgoriadau. Roedd staff yn sôn am eu hanesmwythder wrth orfod cyfeirio menywod gofidus iawn a oedd yn cael camesgoriad i'r toiled hwn, lle roeddent yn wynebu ciwiau hir. Roedd rhai mewn cyflwr o anghysur a gofid difrifol. Nid yn unig y mae hwn yn cyflwyno risg o groes-heintio, ond mae hefyd yn ofidus ac anurddasol iawn i'r cleifion.

Gwelsom, oherwydd lle arbennig o gyfyngedig yn yr Adran Achosion Brys, fod trolïau glân yn aml yn cael eu cadw ar bwys cynwysyddion gwastraff megis biniau gwastraff clinigol. Roedd hyn yn cynnwys trolïau gweithdrefnau aseptic a ddefnyddir ar gyfer gweithdrefnau megis gwythïen-bigo a phibellu. Roedd pobl hefyd yn eistedd yn yr ardaloedd hyn.

Canfuom fod un sinc yn unig ar gael i olchi dwylo yn y man mân anafiadau.

Dyweddod aelod o'r tîm atal a rheoli heintiau wrthym, er bod y Grŵp Ardal Integredig,<sup>4</sup> sy'n rhan o dîm rheoli'r bwrdd iechyd, wedi derbyn peth o'r cyngor a roddwyd ganddynt, roedd adegau eraill pan na wnaethant ddilyn cyngor. Er enghraifft, roedd uwch-reolwyr wedi diystyru cyngor y tîm atal a rheoli heintiau ac wedi cyfarwyddo y dylai staff sy'n gweithio mewn ardaloedd positif COVID-19 wisgo masgiau wyneb llawfeddygol gwrth-hylif ym mhrif ardal y ward yn unig, oni bai eu bod yn rhoi gofal ar bellter o lai na dau fetr, a'r cyngor ynghylch yr ardaloedd lle roedd cleifion â chanlyniadau positif a negatif am COVID-19 yn cymysgu yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

Enghraifft arall a roddwyd oedd y gwnaeth y tîm atal a rheoli heintiau argymhell y dylid cau ward yn sgil brigiad newydd o achosion COVID-19. Dywedwyd wrthym y cafodd hwn ei ddiystyru ar sail llif gan y Grŵp Ardal Integredig. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn parhau i gael eu derbyn i'r ardal honno.

Dywedwyd wrthym fod staff diogelwch, tan yn ddiweddar, wedi cael eu rhoi ar bob mynedfa i'r ysbyty i warchod rhag unrhyw fynediad heb awdurdod ac i sicrhau bod pawb sy'n dod i mewn yn gwisgo masgiau wyneb. Dywedwyd wrthym fod yr arfer hwn wedi'i derfynu gan reolwyr y Grŵp Ardal Integredig heb ymgynghoriad ehangach. O ganlyniad, dywedodd staff wrthym eu bod yn aml wedi cael ymwelwyr heb awdurdod yn cyrchu'r adran. Gwelsom fod hyn yn wir yn ystod yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod y tîm atal a rheoli heintiau wedi codi'r mater o gyfarpar diogelu personol a gwahanu cleifion yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol dro ar ôl dro gydag uwch-reolwyr ond ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu i wella'r sefyllfa.

Roedd aelod o'r tîm atal a rheoli heintiau yn teimlo bod y don bresennol hon o achosion COVID-19 yn cael ei thrin yn llai difrifol gan staff a'r bwrdd iechyd a bod rhai aelodau o staff wedi 'anghofio' eu hyfforddiant ac nid oeddent yn glynu at bolisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau mwyach.

Dyweddod wrthym hefyd nad oedd y polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer gwahanu cleifion â chanlyniadau positif a negatif am COVID-19 wedi cael eu hadolygu ers i'r pandemig ddatblygu. Er enghraifft, mae polisiâu a gweithdrefnau'n parhau i

---

<sup>4</sup> Grŵp Ardal Integredig Merthyr a Chynon yw model gweithredu newydd a fabwysiyd gan y bwrdd iechyd ar 1 Ebrill 2020.

ganolbwyntio'n bennaf ar gleifion sy'n arddangos symptomau pan nad oedd rhai cleifion â COVID-19 yn arddangos symptomau.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

### Rheoli meddyginiaethau

Cyflwynwyd copi o bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd inni. Roedd y dyddiad Hydref 2014 ar hwn ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ei fod wedi'i adolygu'n ddiweddar. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Mae'n rhaid i systemau llywodraethu sicrhau bod yr holl bolisiau'n gyfredol.

Dywedwyd wrthym fod cymorth fferyllfa neilltuedig ar gyfer yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn yr Adran Achosion Brys. Dosbarthwyd meddyginiaethau yn yr Adran Achosion Brys yn electronig gan ddefnyddio cabinet dosbarthu awtomataidd.

Dywedwyd wrthym, os oes angen meddyginiaeth y tu allan i oriau, fod cwpwrdd cyffuriau brys y gellir ei gyrchu trwy'r system rheoli sylweddau a reolir awtomataidd, ac os oes angen unrhyw beth arall, yna gelwir y fferylllydd ar alwad, a all hefyd ddosbarthu meddyginiaeth o bell.

Roedd hefyd yn oergell dan glo ar gyfer storio meddyginiaeth sy'n sensitif i newidiadau tymheredd. Gwelsom fod gwiriadau tymheredd dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Gwelsom fod siartiau cofnod rhoi meddyginiaethau'n cael eu cwblhau yn briodol a bod y codau cywir yn cael eu nodi os oedd cleifion yn gwrthod eu meddyginiaeth.

Canfuom fod cyffuriau a reolir yn cael eu rheoli'n ddiogel gyda gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a llofnodion yn cael eu rhoi yn ôl yr angen. Roedd y cyffuriau a reolir yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo, gyda'r allweddi yn cael eu cadw gan nyrs benodol.

Gwelsom fod ocsigen yn cael ei ragnodi, ei fonitro a'i gofnodi'n briodol.

Gwelsom fod cabinetau y gellir eu cloi ar bwys pob gwely yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol er mwyn storio meddyginiaeth yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfleusterau o'r fath yn yr Adran Achosion Brys. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn loceri mewn un o'r ciwbiclau yn yr Adran Achosion Brys a gwnaethom argymhell y dylid ystyried darparu loceri wal unigol, gyda bysellbadau, wrth ymyl pob man troli claf er mwyn storio meddyginiaeth yn ddiogel yn yr Adran Achosion Brys.

Gwelsom fod strapiau adnabod ar arddyrnau cleifion yn cael eu defnyddio'n briodol yn yr Adran Achosion Brys, gyda strapiau arddwrn coch yn cael eu defnyddio i nodi cleifion ag alergeddau hysbys.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Adolygu'r polisi rheoli meddyginiaethau
- Sicrhau bod system ar waith i gadw'r holl bolisiau'n gyfredol
- Ystyried darparu cabinetau neu loceri y gellir eu cloi yn yr Adran Achosion Brys i gleifion storio eu meddyginiaeth ynddynt

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedwyd wrthym fod nifer o adrannau eraill yn defnyddio'r cyfleusterau yn yr Adran Achosion Brys. Roedd hyn y cynnwys ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer archwilio gynaeolegol a cholli beichiogrwydd, llawdriniaeth gê'n ac wyneb, ac orthopedeg. Nid oedd unrhyw un o'r arbenigeddau hyn yn defnyddio staff nyrsio o'u hisadrannau priodol i gefnogi cleifion. O ganlyniad, disgwylir i staff yr Adran Achosion Brys gynorthwyo staff meddygol gydag archwiliadau. Roedd hyn yn cymryd amser, adnoddau a chapasiti ffisegol gwerthfawr o'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn rhwystro llif cleifion ac yn cael effaith niweidiol ar allu'r adran i ddarparu ar gyfer cleifion.

Defnyddiwyd yr ystafell gynaeoleg yn rheolaidd i drin cleifion a oedd yn cael comesgoriad. Byddai'r meddyg yn cael ei gynorthwyo gan gynorthwydd gofal iechyd o'r Adran Achosion Brys, nad oedd wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn. Nid ystyriwyd yr ystafell yn amgylchedd diheintiedig ac roedd sawl risg atal a rheoli heintiau'n bresennol, gan gynnwys plwg trydan a oedd yn cael ei ddal at ei gilydd gan dâp a llindag tafladwy. Roedd y lamp a ddefnyddiwyd yn ystod y gweithdrefnau wedi torri hefyd ac felly roedd angen i'r cynorthwydd gofal iechyd ddal y lamp â llaw i'r meddyg.

Roedd yr ystafell hon yn y man mân anafiadau ac yn gyfagos i gleifion sy'n cael eu trin yno. Rhoddwyd enghraifft gan y staff o glaf yn cael comesgoriad yn yr ystafell hon ac roedd unigolyn oedrannus ar sedd y tu allan i'r drws.

Roedd yn rhaid i gynhyrchion beichiogrwydd gael eu rheoli gan staff yr Adran Achosion Brys ac roedd hyn yn cynnwys trosglwyddo cynhyrchion a ffetysau i'r marwdy. Byddai hyn yn cymryd dwy nyrs oddi wrth yr Adran Achosion Brys.

Nid oedd gan y cleifion a gafodd gamesgoriadau fynediad at unrhyw gwrsela neu gymorth gan y gwasanaethau mamolaeth. Roedd staff yr Adran Achosion Brys yn gwneud eu gorau glas i gefnogi'r cleifion ond prin iawn oedd eu profiad a'u hyfforddiant ffurfiol yn y maes hwn.

Canfuom nad yw'r ardal bediatrig yn yr Adran Achosion Brys wedi'i staffio'n briodol, gyda dim ond un nyrs gymwys ac un cynorthwydd gofal iechyd yn aml yn gweithio yn yr ardal. Roedd hyn yn arwain at yr ardal hon yn cael ei gadael yn rheolaidd heb nyrs gymwys gan fod yn rhaid iddynt hebrwng cleifion i'r ystafell pelydrau-X neu fynd i'r ardal ddadebru yn ôl y gofyn.

Roedd y nyrsys a oedd yn gweithio yn yr ardal bediatrig dan straen mawr ac yn teimlo'n drist yn sgil y sefyllfa hon. Roedd yr ystafell driniaeth ar gyfer cleifion â chanlyniad COVID-19 positif yn yr un ardal â'r ystafell aros a chleifion eraill a oedd wedi cael canlyniad negatif am COVID-19. Yn ogystal, roedd yr ystafell aros yn fach ac nid oedd yn hwyluso cadw pellter cymdeithasol.

Rheolir mynediad at yr ardal gan system cerdyn allwedd. Fodd bynnag, mae wedi'i lleoli wrth ymyl derbynfa'r Adran Achosion Brys a gwelwyd ei bod yn cael ei defnyddio fel tramwyfa gan nifer o aelodau staff o'r adran. Roedd hyn yn golygu bod y drysau'n cael eu datgloi a'u hagor sawl gwaith.

Nid oedd digon o le ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol, gyda hwn yn cael ei wneud yn y coridor.

Dywedwyd wrthym fod plant yn aml yn aros yn yr adran am hyd at ddeg awr, hyd yn oed pan oedd lle ar y ward i blant gan fod adegau pan na fyddai'r ward yn derbyn derbyniadau o'r Adran Achosion Brys.

Nid oedd Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion<sup>5</sup> yn gyfredol. Felly, nid oedd y staff yn gallu rhoi analgesia syml i blant yn ystod brysbennu.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

---

<sup>5</sup> Cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer cyflenwi neu roi meddyginiaethau i grwpiau o gleifion efallai nad ydynt wedi'u nodi'n unigol cyn cyrraedd i gael triniaeth yw Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion. Mae'n rhaid i Gyfarwyddiadau Grŵp Cleifion ond yn cael eu defnyddio fel rhan o wasanaeth a gomisiynwyd gan y GIG.

Dyweddodd staff wrthym fod rowndio bwriadol<sup>6</sup> wedi'i gyflwyno'n ddiweddar yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol.

Roedd staff yn poeni bod y broses hon wedi'i gweithredu yn sgil staff annigonol i ddarparu gofal un i un i rai cleifion. O dan y broses hon, mae staff yn ymgymryd â gwiriadau amlach ar grŵp o gleifion. Gallai hyn arwain at elfennau o ofal a chymorth yn peidio â chael eu darparu mewn modd amserol ac mae'n cynyddu'r risg o niwed i gleifion.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rowndio bwriadol i sicrhau bod anghenion gofal cleifion sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd angen gofal, cymorth a goruchwyliaeth un i un arnynt yn cael eu diwallu'n llwyr drwy'r amser.

#### Cadw cofnodion

Dywedwyd wrthym y cynhelir archwiliadau dogfennau rheolaidd ac y rhennir canfyddiadau â staff er mwyn gwella arfer.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau gofal cleifion ac asesiadau risg a chanfod bod y rhain, ar y cyfan, wedi cael eu cwblhau'n gywir yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Fodd bynnag, canfuom fod y dull o gadw cofnodion yn wael yn gyffredinol yn yr Adran Achosion Brys.

Canfuom na chynhaliwyd deg allan o'r 12 o arsylwadau gofynnol ar amllder sy'n angenrheidiol i nodi dirywiad. Roedd hyn yn cynnwys cleifion â Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol uwch.<sup>7</sup> Yn aml, roedd Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol

---

<sup>6</sup> Rowndio bwriadol yw'r broses strwythuredig lle mae nyrsys mewn ysbytai'n cynnal gwiriadau rheolaidd, fel arfer bob awr, gyda chleifion gan ddefnyddio protocol safonol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ystum, poen, anghenion personol a lleoliad eitemau.

<sup>7</sup> Offeryn a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, sy'n gwella'r gwaith o ganfod ac ymateb i ddirywiad clinigol mewn cleifion sy'n oedolion, ac mae'n elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau i gleifion.



yn cael eu camgyfrif neu ar goll. Ar yr holl siartiau a adolygwyd, ni lynwyd at yr amllder a nodwyd ar frig y siart.

Nid oedd staff yn ymwybodol o ganllawiau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar fonitro arwyddion hanfodol cleifion, sy'n gofyn am arsylwadau mwy aml.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn ymwybodol o brotocol sepsis y bwrdd iechyd a'u bod yn gwybod sut i gael mynediad at ganllawiau clinigol perthnasol trwy'r fewnrwyd. Fodd bynnag, ym mhob un o'r tri achos claf a olrheinid lle'r oedd arwyddion o sepsis yn bresennol, ni chafodd offeryn sgrinio ei gwblhau. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion drwy'r amser yn cael eu monitro ar amllder a fyddai'n nodi dirywiad a newidiadau yn eu cyflwr.

Nid oedd gan yr Adran Achosion Brys ei hamserlen ei hun yn rhoi manylion am ba arsylwadau sydd eu hangen a pha mor aml y dylai'r rhain gael eu cwblhau a'u cofnodi.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom nad oedd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth â ffocws digonol neu'n ddigon cadarn. Gwnaethom dynnu sylw at faterion difrifol, sy'n gofyn am gamau gweithredu brys gan y bwrdd iechyd er mwyn atal niwed sylweddol i gleifion, aelodau'r cyhoedd a staff.

Canfuom nad oedd y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ehangach, y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Adran Achosion Brys, yn cael effaith effeithiol neu gefnogol ar yr adran hon. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi ac na wrandewir arnynt. Roedd hyn wedi arwain at staff rheng flaen yn teimlo'n unig.

Gwnaethom bwysleisio nifer o faterion sylweddol, a oedd yn cyflwyno risg sylweddol o niwed i gleifion a staff, nad oedd y tîm rheoli'n ymwybodol ohonynt.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom siarad â chroestoriad o staff a oedd yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol, wyneb yn wyneb, ac o bell dros Microsoft Teams.

Roedd nifer yr aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw yn anhapus iawn, dan straen, ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi a'u llwyth gwaith. Roedd rhai o'r staff yn amlwg yn drist ac yn wylo wrth siarad â'r tîm arolygu. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod yn teimlo cywilydd o weithio yn yr ysbyty ac yn teimlo nad oedd ganddynt ymrwymiad iddo.

Dywedodd rhai staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr yn yr ysbyty, ac nad oeddent yn gwrandao ar eu pryderon am atal a rheoli heintiau a lefelau staffio. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod wedi codi pryderon dro

ar ôl tro am ddiogelwch cleifion a staff i uwch-reolwyr, y tu allan i'r Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol, ac nad oedd y rhain wedi derbyn sylw.

Dyweddodd y staff sy'n gweithio yn yr ardal bediatrig yn yr Adran Achosion Brys wrthym fod yr uwch-nyrsys wedi'u datgysylltu ac nad oeddent yn deall y materion a heriau penodol a wynebwr gan staff sy'n gweithio yn yr ardal honno.

Roeddem yn bryderus nad oedd uwch-reolwyr yn ymwybodol o rai o'r materion difrifol iawn y gwnaethom eu canfod yn ystod yr arolygiad a bod datgysylltiad rhwng yr hyn y dywedasant wrthym ei fod yn digwydd, yr hyn a ddywedodd staff wrthym, a'r hyn a welsom yn ystod yr arolygiad.

Nid oedd staff yn glir am haenau cymhleth rheolaeth y tu allan i'r Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol ac, yn benodol, strwythur y Grŵp Ardal Integredig. Teimlodd staff fod hyn yn haen ychwanegol na ddaeth â chymorth neu newid ystyrion. Dywedodd staff wrthym nad oedd tîm rheoli'r safle yn weithredol, sydd, yn ei dro, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y pennaeth nyrsio.

Dyweddodd staff wrthym nad ymgynghorwyd â nhw ar newidiadau a wnaed i'r ardaloedd eu bod yn gweithio ynddynt, a arweiniodd at effaith glinigol y newidiadau yn peidio â chael ei hystyried.

### **Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

Yn ogystal â chynnal trafodaethau wyneb yn wyneb â staff, gwnaethom gyflwyno posteri â chodau ymateb sydyn (QR) ac anfon dolenni at staff i gael mynediad at arolwg ar-lein i geisio eu barn ar y gwasanaeth a gynigir yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

Cawsom gyfanswm o 30 o ymatebion gan groestoriad o staff a oedd wedi gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau sy'n amrywio o lai na flwyddyn i fwy na deng mlynedd. Dywedodd 11 o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys, dywedodd 13 ohonynt eu bod yn gweithio yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol, a dywedodd pedwar eu bod yn gweithio mewn ardaloedd eraill.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd gan staff trwy'r arolwg ar-lein:

- Roedd llai na chwarter yr aelodau staff a lenwodd yr arolwg ar-lein yn cytuno mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion.

- Dim ond pedwar allan o'r 27 o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle da i weithio ynndo, gyda dim ond tri yn nodi y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe bai'r gofal drostynt eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.
- Dywedodd llai na chwarter yr ymatebwyr y cesglid adborth gan gleifion yn eu cyfarwyddiaeth/adran a'u bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad y claf.
- Dywedodd llai na chwarter yr ymatebwyr fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth/adran.

Gwnaethom ofyn i staff, trwy'r arolwg ar-lein, roi eu barn ar eu rheolwr uniongyrchol:

- Dywedodd hanner y staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein fod eu rheolwr uniongyrchol yn eu hannog i weithio fel tîm.
- Dywedodd un o bob tri o'r ymatebwyr y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith.
- Dywedodd chwarter yr ymatebwyr fod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith a'i fod yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.
- Dywedodd un o bob tri o'r ymatebwyr fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff am eu rheolwr uniongyrchol:

*“Rwy'n cael cymorth anhygoel gan fy rheolwr llinell a'm dirprwy reolwr. Fodd bynnag, ni allaf helpu ond teimlo trueni drostynt pan fyddwn mor dynn ac yn cael ein tynnu o gwmpas y lle.”*

*“Mae'r ymatebion hyn yn seiliedig ar fy rheolwyr band saith. Rwy'n teimlo nad oes unrhyw berthynas gyda rheolwyr sy'n uwch na'r rôl hon.”*

*“Rwy'n teimlo nad yw fy marn yn cael ei gwerthfawrogi na'i chlywed, sy'n deimlad a rennir gan y rhan fwyaf o staff yn yr adran, ac ni ofynnir inni byth am ein barn nac yn rhan o ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau/gwelliannau.”*

*“Maent yn gwneud imi fod yn gyfrifol pan nad wyf wedi bod yn gymwys am gyfnod hir gan fod nifer o staff uwch wedi gadael ac nid ydynt wedi gallu llenwi'r swyddi.”*

Gwnaethom ofyn i staff, trwy'r arolwg ar-lein, roi eu safbwyntiau inni ar yr uwch-reolwyr:

- Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr.
- Dim ond tri ymatebydd a ddywedodd fod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig.
- Dim ond dau ymatebydd a ddywedodd fod uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth gan staff a'u bod wedi ymrwymo i ofal cleifion.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff am uwch-reolwyr:

“Rydym wedi newid yr uwch-reolwyr sawl gwaith dros yr ychydig flynyddoedd diweddar yn sgil y pwysau y mae'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn eu denu. Rydym yn cael llawer o gwynion am ofal cleifion yn sgil problemau staffio ac maent dal yn ein cadw heb ddigon o staff. Byddai'n well gan reolwyr eistedd yn y swyddfa na bod yn ymarferol a chynorthwyo gyda gofal cleifion ac wrth eu hymolchi neu roi meddyginiaeth iddynt.”

“Ddim yn eu gweld. Peidio byth yn dod i helpu.”

*“Rwy'n teimlo bod uwch-reolwyr wedi ymrwymo i fodloni targedau'n fwy na'u bod wedi ymrwymo i ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion. Rhoddir y pwysau hyn ar staff gradd is, sy'n cael effaith ar ansawdd y gofal.”*

*“Rydym yn gweithio heb ddigon o staff yn rheolaidd ar ddiwrnodau pan na fydd y rheolwr byth yn dod allan o'r swyddfa i helpu ... mae'n eistedd yno ac yn dweud wrthym i gael mwy o gleifion yr un pan na allwn ymdopi â'r llwyth gwaith sydd eisoes gennym.”*

Gwnaethom ofyn i staff am eu llesiant a'u patrymau gwaith:

- Dywedodd hanner y staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein eu bod yn edrych ar ganllawiau, rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol newydd yn rheolaidd.
- Dywedodd chwarter yr ymatebwyr eu bod yn cael eu cefnogi i sicrhau y gweithredir ac y glynir wrth rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol, tra dywedodd un o bob tri eu bod wedi cael gwybod am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig.

- Dywedodd mwy na hanner y staff fod eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd.
- Dim ond un o bob tri o'r ymatebwyr a gytunodd fod eu rheolwr uniongyrchol yn ymddiddori mewn modd cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, gydag un ym mhob pump yn dweud wrthym fod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant.
- Dywedodd ychydig yn llai nag un o bob tri eu bod yn cael cynnig cymorth llawn wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol.
- Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael.
- Dim ond un o bob tri o'r ymatebwyr a gytunodd fod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd personol a gwaith.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff am eu llesiant a'u patrymau gwaith:

*“Rwy'n cael problemau gofal plant – dywedwyd wrthyf am ddod i'r gwaith neu ddod o hyd i swydd arall.”*

*“Maent yn gwneud imi weithio ar shifftiau drwy'r amser felly nid wyf yn cael llawer o amser hamdden. Wedyn, maent yn dweud bod yn rhaid imi geisio gwneud dysgu ar-lein gartref pan ddylwn i fod yn ymlacio.”*

Gwnaethom ofyn i staff am yr hyn sy'n digwydd pan fydd digwyddiadau a phan fydd camgymeriadau'n digwydd:

- Dywedodd dau o bob tri o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn effeithio ar staff yn ystod y mis diwethaf a dywedodd un rhan o dair nad ydynt wedi eu gweld. Dywedodd tri chwarter y staff wrthym eu bod wedi gweld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn effeithio ar gleifion yn ystod y mis diwethaf.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r tro diwethaf iddynt weld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill, y gwnaethant adrodd amdanynt.
- Dywedodd ychydig yn llai nag un o bob tri o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad yn deg, gydag ychydig dros hanner yn dweud

wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i adrodd ar unrhyw wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau.

- Cytunodd un o bob tri o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn trin adroddiadau am wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn gyfrinachol.
- Dywedodd ychydig dros un o bob tri o'r ymatebwyr nad yw'r sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl sy'n ymwneud â gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau.
- Cytunodd llai nag un o bob tri o'r ymatebwyr, pan adroddir ar wallau, digwyddiadau y bu ond y dim ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, fod y sefydliad yn gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto a dywedodd yr un nifer o ymatebwyr eu bod yn cael eu hysbysu o wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt a digwyddiadau sy'n digwydd yn y sefydliad.
- Dywedodd llai na chwarter yr ymatebwyr eu bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, pe baent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd arno, gyda llai na hanner yn dweud wrthym y byddent yn teimlo'n fodlon wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff am adrodd am ddigwyddiadau:

*“Mae gwybodaeth Datrrix a roddir ar adeg pob digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad drwy'r amser yn dod yn ôl fel perygl isel, nid yw unrhyw beth erioed yn newid.”*

*“Wedi adrodd i'r rheolwr a rhoi popeth ar y system, ond ni chefais adborth gan unrhyw beth ac nid yw unrhyw beth erioed yn newid.”*

*“Byth yn cael adborth. Dim ond gweiddi arnoch a'ch bwlio.”*

*“Er yr hyrwyddir diwylliant dim beio yn yr adran, nid wyf yn credu bod hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Rwyf wedi gweld sawl gwaith y bydd pobl yn cael eu cosbi trwy gael eu hatal rhag gweithio mewn ardaloedd penodol neu eu hanfon at wardiau gwahanol i*

*weithio am gyfnod, heb unrhyw ddiben arall heblaw am gosbi unigolyn. Mae staff yn cael eu trin fel plant ac rwyf wedi gweld aelodau eraill o staff yn cael eu siarad â nhw gan uwch-reolwyr mewn modd diraddiol.”*

“Byth yn cael adborth, peidio â chael unrhyw gymorth. Ddim wedi cael fy ngoruchwylio pan wnes i gymhwyso am y tro cyntaf. Dywedwyd wrthym am nofio neu foddi.”

Gwnaethom ofyn i staff am atal a rheoli heintiau a chydymffurfio â COVID-19:

- Dim ond hanner yr ymatebwyr a ddywedodd fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.
- Dim ond un o bob tri o'r ymatebwyr a gytunodd fod y sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol a bod y newidiadau ymarfer angenrheidiol wedi cael eu gweithredu.
- Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr wrthym fod cyflenwad y cyfarpar diogelu personol yn annigonol ac roedd thri chwarter yn dweud wrthym nad oedd trefniadau ar gyfer dihalogi offer a manau yr effeithiwyd arnynt yn ddigonol.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff am atal a rheoli heintiau a chydymffurfio â COVID-19:

“Weithiau, nid oes gynau neu ffedogau ar gael gennym. Dim feisorau ar gael i gleifion COVID-19 ac mae'n anodd dod o hyd i hylif diheintio dwylo.”

*“Mae gorfod nyrsio cleifion ‘glân’ a chleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 yn ystod yr un shift, o fewn cyfnod byr, yn wirion. Mae cael ystafell ar gyfer achosion o COVID-19 nad ydynt yn ddifrifol sydd mor bell o'n prif ardaloedd hefyd yn bryder mawr sydd wedi cael ei godi sawl gwaith gan nifer o staff ond sydd heb newid.”*

“Mae'r ystafell aros COVID-19 i gleifion sy'n cerdded i mewn i'r adran gyda symptomau COVID-19 wedi'i lleoli i ffwrdd o'r man mân anafiadau a'r man anafiadau difrifol heb fynediad cyflym at y naill ardal na'r llall. Mae sawl claf wedi dod yn sâl yn gyflym yno gan nad oes modd eu monitro. Fel arfer, mae gennym un neu ddwy ystafell yn unig ar gael i gleifion COVID-19 fynd am asesiad gan yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae hyn fel arfer yn arwain atyn



nhw yn mynd i'r man mân anafiadau neu'r ardal ddadebru. Mae disgwyl hefyd inni ofalu am gleifion COVID-19 a chleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19 ar yr un pryd. Mae'r ystafell aros werdd hefyd yn fach iawn ac mae'n brysur drwy'r amser ac mae bron yn amhosibl cadw pellter cymdeithasol. Mae'r holl gleifion mân anafiadau, sydd fel arfer yn gyfanswm o dros 40 i 50 o gleifion i gyd, yn rhannu un toiled yn unig.”

Gwnaethom ofyn a oedd staff wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Adroddodd tri aelod o staff wahaniaethu ar sail oedran, dau ar sail rhyw, pump ar sail “arall”, ac ymatebodd chwech ei bod yn well ganddynt “beidio â dweud”. Adroddodd rhai ymatebwyr fod pobl wedi gwahaniaethu yn eu herbryn mewn sawl categori.
- Cytunodd llai na hanner yr ymatebwyr fod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).
- Cytunodd hanner yr ymatebwyr fod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff mewn perthynas â gwahaniaethu yn y gweithle a chyfleoedd yn y gweithle:

*“Rwy'n rhiant sengl, nid ydynt yn poeni am fy mlentyn.”*

*“Nid oes unrhyw gyfleoedd yn y gweithle gan nad oes digon o staff. Maent yn ein gweithio hyd at yr esgyrn ac mae staff asiantaeth yn cyflenwi ar y rhan fwyaf o shifftiau gan nad ydym yn gallu cael y staff.”*

## **Staff ac adnoddau**

### **Y gweithlu**

Gwnaethom edrych ar rotas staff ar gyfer yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol a gwnaethom siarad â staff i gael eu barn am y lefelau staffio presennol.

Dywedwyd wrthym fod recriwtio a chadw staff yn heriol a bod y gwasanaeth yn ddibynnol iawn ar staff asiantaeth a staff banc i fodloni'r lefel o staffio. Dywedwyd wrthym hefyd fod y sefyllfa'n cael eu gwneud yn waeth gan nifer y staff ar absenoldeb

oherwydd salwch. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddiogelu'r un staff asiantaeth lle bo'n bosibl i gynnal parhad gofal a sicrhau bod aelodau o staff yn gyfarwydd â'r amgylchedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob tro yn bosibl ac roedd defnydd staff asiantaeth yn aml yn ychwanegu at y pwysau ar staff sefydledig gan fod yn rhaid iddynt dreulio amser yn sefydlu, cyfarwyddo a chefnogi staff nad oeddent wedi gweithio yn yr Adran Achosion Brys neu'r Uned Penderfyniadau Clinigol o'r blaen.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y gweithlu, yn gyffredinol, ar draws yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn amhrofiadol iawn gyda disgwyl i staff iau gymryd cyfrifoldebau sydd fel arfer yn cael eu dyrannu i aelodau staff mwy profiadol.

Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi bod i rolau uwch-nyrsys dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf sydd wedi bod yn anodd i staff addasu iddynt.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu cynyddu yn yr Adran Achosion Brys yn ddiweddar, gyda'r nod o gael 13 o nyrsys wedi'u hyfforddi yn cyflenwi pob shift, wedi'u cefnogi gan hyd at bum cynorthwydd gofal iechyd. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y rotas staffio a ddarparwyd. Dywedwyd wrthym fod fel arfer pump o nyrsys wedi'u hyfforddi ar ddyletswydd yn ystod y dydd yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol, gyda phedwar yn ystod y nos. Mae fel arfer pedwar cynorthwydd gofal iechyd sy'n gweithio yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ond gall hyn gynyddu i chwech, yn dibynnu ar lefelau dibyniaeth cleifion ac i ddiwallu anghenion unrhyw gleifion bariatrig a allai fod yn bresennol.

### **Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B yr adroddiad hwn.**

Mae'r canlynol yn grynodedb o'r ymatebion a dderbyniwyd trwy'r arolwg ar-lein mewn perthynas â darpariaeth gofal yn benodol:

- Dim ond un o bob tri o staff a lenwodd yr arolwg ar-lein a ddywedodd wrthym eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion sy'n cystadlu am eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer i wneud eu gwaith, gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn dweud nad oedd erioed ddigon o staff ar ddyletswydd.
- Dim ond naw aelod o staff a ddywedodd fod modd iddynt wneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm/adran a'u bod yn rhan o wneud benderfyniadau ar newidiadau a gyflwynir sy'n effeithio ar eu maes gwaith.
- Dim ond hanner y staff a wnaeth gwblhau'r arolwg ar-lein a ddywedodd y caiff preifatrwydd ac urddas cleifion eu cynnal, gyda llai na hanner yn dweud wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal eu bod yn ei ddarparu i gleifion.
- Dim ond hanner y staff a lenwodd yr arolwg ar-lein a ddywedodd fod cleifion a/neu eu perthnasau bob amser, neu fel arfer, yn cymryd rhan mewn

penderfyniadau am eu gofal, gydag ychydig dros hanner yn dweud bod annibyniaeth cleifion yn cael ei hyrwyddo drwy'r amser.

- Dywedodd un o bob tri o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn annog gwaith tîm, gyda llai na chwarter yn dweud bod y sefydliad yn gefnogol.
- Dywedodd llai nag un o bob tri o'r ymatebwyr fod gan weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â chleifion ddigon o rym i godi llais a gweithredu os byddant yn nodi problemau, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.
- Dim ond pedwar allan o 27 o ymatebwyr a ddywedodd fod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y sefydliad sy'n cefnogi staff i adnabod a datrys problemau, a bod gan y sefydliad y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol ac ymateb yn gyflym pan fydd diffygion.
- Dim ond pedwar ymatebydd a ddywedodd eu bod yn fodlon ar ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a chleifion yn ddiogel.

Dyma rai o'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan staff trwy'r arolwg ar-lein:

*“Rydym yn gweithio heb ddigon o staff yn y dydd a'r nos. Prin iawn yw'r diwrnodau astudio sydd gennym gan nad oes digon o staff ar gael i gael eich rhyddhau i fynd ar gyrsiau. Dros y blynyddoedd, mae sawl aelod o staff wedi gadael yn sgil rheolwyr yn eu bwlio. Ac yn ddiweddar, gorfodwyd i un nyrs [radd] ymddeol gan eu bod yn gwneud iddi weithio ar ddiwrnodau nad oedd yn gallu gweithio ... Rydym yn gweithio'r rhan fwyaf o shifftiau ac yn cael ein cyflenwi gan asiantaeth neu nyrsys nad ydynt yn dod. Mae pawb yn gwneud ceisiadau am swyddi gan nad oes cyfle am gynydd gan nad yw swyddi'r nyrsys [gradd] a oedd arfer bod gyda ni wedi cael eu llenwi ac nid yw swyddi'r nyrsys [gradd] sydd wedi gadael wedi cael eu llenwi eto. Mae'r staff sy'n gwarchod wedi cael eu hadleoli i ardaloedd gwyrdd, sy'n golygu ein bod wedi colli mwy o staff eto, ond maent dal yn rhan o'n cyllideb felly ni allwn eu disodli. Rwy'n ofn bob tro fy mod yn gweithio ac mae pawb yn teimlo'r un peth.”*

*“Byddwn i'n mynd i rywle arall yn lle mynd i Ysbyty'r Tywysog Siarl. Nid oes gennym unrhyw staff, maent i gyd wedi mynd ac nid ydynt wedi'u disodli.”*

*“Mae gofal cleifion yn anodd iawn yn yr hinsawdd bresennol. Mae gofalu am gleifion mewn coridorau ac ar gefn ambiwlans yn ei*

*gwneud yn anodd cynnal parch ac urddas i'r claf. Mae swydd ddirboenus wedi'i gwneud yn anoddach gan reolwyr nad oes ganddynt unrhyw brofiad ym maes damweiniau ac achosion brys felly ni allant nodi problemau a gweithredu arnynt. Mae diwylliant beio'n amlwg yn ein hadran, gyda bwlio ac aflonyddu parhaus, cymysgedd gwael o sgiliau, a throsiant staff uchel.”*

*“Mae'r galw ar ein hadran yn cael effaith ar ansawdd ein gofal. Fel unigolion, rydym trwy'r amser yn ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau. Mae gweithio mewn adran mor brysur a chael eich tynnu o bared i bost yn bendant yn cael effaith ar yr ansawdd.”*

*“Ni fyddwn i'n dymuno i'm perthnasau aros yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn sgil y pandemig a phwysau'r gaeaf sydd ar y gweill a hefyd diffygion staff a rhai nyrsys asiantaeth fy mod yn teimlo ei bod yn eithaf peryglus gweithio gyda nhw.”*

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth llesiant i staff ar gael a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â staff dros e-bost. Dywedodd staff wrthym hefyd fod ystafell lesiant i staff ar gael ar gyfer amser egwyl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bellach.

### Hyfforddiant staff

Rhodddwyd gwybodaeth am hyfforddiant staff inni a gwnaethom ganfod bod amrywiant mawr mewn cyfraddau cwblhau hyfforddiant rhwng staff unigol, o 7.7% i 92.3% o bynciau hyfforddiant wedi'u cwblhau. Yn gyffredinol, canfuwyd bod cydymffurfedd â hyfforddiant yn isel a dywedwyd wrthym fod hyn yn sgil y pandemig a phwysau staffio. Gwnaeth staff gadarnhau eu bod yn ei chael yn anodd cwblhau hyfforddiant ar-lein oherwydd bod yr adran mor brysur.

Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfleoedd hyfforddiant fel arfer yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin pan fyddant yn codi, sy'n golygu bod rhai staff yn colli allan.

Dywedwyd wrthym fod swydd am Nyrs Datblygu Ymarfer yn cael ei hysbysebu a rhagwelir y byddai penodi Nyrs Datblygu Ymarfer yn cynorthwyo hyfforddiant a datblygiad staff yn fawr iawn.

Dywedwyd wrthym fod gofyn i staff newydd ymgymryd â hyfforddiant sefydlu. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant hwn yn benodol i'r Adran Achosion Brys neu'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant a mynediad at gyrsiau, hyd at y llynedd, gan gynnwys Cynnal Bywyd Uwch, Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch a Chynnal Bywyd Trawma Uwch, wedi bod yn dda. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig COVID-19, roedd mynediad at hyfforddiant wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, cafodd hyfforddiant cynnal bywyd canolraddol ei ddarparu'n ddiweddar.

Mae'r canlynol yn grynodedb o'r ymatebion a dderbyniwyd trwy'r arolwg ar-lein mewn perthynas â hyfforddiant staff yn benodol:

- Dim ond chwe aelod o staff a ddywedodd y nodwyd eu hanghenion dysgu neu eu hanghenion datblygu, gyda 24 yn dweud na chawsant eu nodi. Dywedodd ychydig dros chwarter y staff fod eu rheolwr yn eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant neu i ddatblygu.
- Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr wrthym fod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, yn eu helpu i fod yn ymwybodol o'r gofynion proffesiynol diweddaraf, ac yn eu helpu i gynnig profiad gwell ar gyfer cleifion.
- Dywedodd oddeutu hanner yr ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, diogelwch ac ymwybyddiaeth tân, sglerosis ochrol amyotroffig, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, rheoli heintiau, diogelu, dementia/deliriwm, a gofal pobl hŷn (preifatrwydd ac urddas).
- Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant arall oedd yn ymwneud â gofal arbenigol.
- Dywedodd y staff wrthym y byddent yn elwa o gael hyfforddiant pellach mewn meysydd fel cynnal bywyd ar unwaith, gwythïen-bigio, pibellu mewnwythiennol, codi a chario, Datix, dementia, rheoli heintiau, iechyd meddwl, is-gyfeirio, awtistiaeth, diogelwch tân, rheoli trais ac ymosodedd, gosod cathetr i ddynion, dadansoddi electrocardiograffau, gofal critigol, asesiadau llyncu, a gosod plastr.
- Dim ond chwech ymatebydd a ddywedodd wrthym iddynt gael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf, a nododd 22 aelod o staff nad oeddent wedi cael un. Dywedodd tri eu bod wedi cael goruchwyliaeth glinigol yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd 27 nad oeddent wedi cael goruchwyliaeth o'r fath.
- Dywedodd hanner y staff iddynt gael mentoriaeth/tiwtoriaeth briodol ar ddechrau eu rôl, gan ychwanegu nad oedd am gyfnod digon hir.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant, ac amser dynodedig i ymgymryd â hyfforddiant, er mwyn datblygu sylfaen eu gwybodaeth a'u cymhwysedd. Dylai'r hyfforddiant hwn gwmpasu pynciau sy'n benodol i'r gwasanaeth yn ogystal â phynciau gorfodol.

- Myfyrio ar ymatebion llai ffafriol y staff i rai o'r cwestiynau yn holiadur ar-lein AGIC, fel y nodwyd yn adran 'Answydd rheolaeth ac arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill pan fo hynny'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Nid oedd modd datrys unrhyw rai o'r pryderon a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:** Ysbyty'r Tywysog Siarl

**Ward/adran:** Yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol

**Dyddiadau'r arolygiad:** 13, 14 a 15 Medi 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r holl risgiau i iechyd a diogelwch o fewn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol ac yn mynd i'r afael â'r hwy.	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch  <b>Safon 2.2</b> Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd  <b>Safon 2.3</b> Atal cwympiadau	Mae'r adran hon yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn rhoi sicrwydd yn erbyn yr holl gamau gweithredu a gwblhawyd gennym ac y byddwn yn parhau i'w datblygu o ganlyniad i adolygiad AGIC a chamau gweithredu gwelliant eraill. Mae manylion y camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adrannau dilynol.  Yn dilyn nifer o bryderon mewn perthynas ag ansawdd, lanswyd rhaglen wella strwythuredig ar gyfer		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ysbyty'r Tywysog Siarl ym mis Gorffennaf 2021. Datblygwyd cynllun cychwynnol (<b>Atodiad 8</b>). Caiff cynnydd ei fonitro drwy fwrdd rhaglen noddedig gweithredol (<b>Atodiad 6, 7</b>) ac adroddir i uwch-reolwyr drwy strwythur llywodraethu y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Lluniwyd Dogfen Cychwyn Prosiect fel sail i'r rhaglen waith ar gyfer gwella (<b>Atodiad 9</b>). Ar ddechrau mis Medi 2021, roedd y rhaglen hon wedi cwblhau'r gwaith diagnostig cychwynnol ar gyfer safon perfformiad yr Adran Achosion Brys yn erbyn safonau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys a nododd ganfyddiadau a oedd yn gyson ag adolygiad AGIC. Penodwyd cyfarwyddwr gwelliant eisoes i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r cynllun (a fydd bellach hefyd yn cynnwys y</p>	<p><b>Pennaeth Ansawdd a</b></p>	<p><b>30/10/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>camau gweithredu sy'n cael eu dwyn ymlaen o'r adolygiad hwn).</p> <p>Mae'r gofrestr risg wedi cael ei hadolygu i alinio â'r risgiau a nodwyd drwy'r rhaglen wella, ac mae strategaeth hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gadarn ar waith i sicrhau bod y tîm yn rheoli'r risgiau mewn ffordd ragweithiol yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae gan dimau aciwt Ysbyty'r Tywysog Siarl sesiwn ymwybyddiaeth o risgiau wedi'i threfnu gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Cynorthwyol a Phennaeth Ansawdd y Grŵp Ardal Integredig, a fydd yn cryfhau'r gofynion llywodraethu ansawdd ymhellach.</p> <p>Mae paneli craffu misol ar waith i adolygu'r holl niwed yn sgil cwmpiau a briwiau pwyso</p>	<p><b>Diogelwch Merthyr Cynon</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrso</b></p>	<p><b>Monitro parhaus drwy gyfarfodydd sicrwydd y Grŵp Ardal Integredig a strwythur llywodraethu ansawdd, diogelwch a phrofiad</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p><b>(Atodiad 58)</b> yn unol â'r llwybr Cymru gyfan. Wrth adolygu'r achosion hyn, rhoddir ystyriaeth bob amser i'r oedi posibl a'r amser y bydd unigolyn yn ei dreulio yn yr Adran Achosion Brys ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty. Darparwyd hyfforddiant pellach gan y nyrs hyfywedd meinwe ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro o fewn strwythur cyfarfod ansawdd a diogelwch y Grŵp Ardal Integredig <b>(Atodiad 59)</b>.</p> <p>Mae safonau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yn canolbwyntio ar wella profiad y claf. Cwblhawyd archwiliad gan y Tîm Corfforaethol i asesu cydymffurfedd ym mis Medi 2021.</p> <p>Yn erbyn y 34 safon hanfodol, roedd cydymffurfedd yn 50%. Yn erbyn 16 o'r safonau datblygu,</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Monitro parhaus, ailasesiad ym mis Chwefror 2022</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>roedd cydymffurfedd yn 42%. Ceir adroddiad llawn ac argymhellion yn <b>Atodiad 10</b>. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu bwydo i gynllun gweithredu manwl ar hyn o bryd a bydd hwnnw bellach yn cael ei gyfuno â chanfyddiadau adolygiad AGIC.</p>		
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn cael eu dilyn yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.</p>	<p><b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p> <p><b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Nodir canfyddiadau penodol yn 'Tystiolaeth', Adran A:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r holl staff wedi cael sesiwn friffio drwy ystod o sesiynau briffio arweinyddiaeth a thîm sydd hefyd wedi cael eu rhaedru drwy gyfarfodydd diogelwch yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol. Mae'r gwaith o fonitro materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli</li> </ul>	<p><b>Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig a Phrif Swyddog Gweithredu</b></p>	<p><b>Digwyddiadau lluosog ers 17.9.21 ac yn barhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>heintiau yn cael ei ddisgrifio yn yr adran ar atal a rheoli heintiau isod (<b>Atodiad 28</b>).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gan nad yw coridor y man anafiadau difrifol yn cael ei ddefnyddio i ofalu am gleifion bellach, mae pellter diogel a phriodol ar gael ar gyfer gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol.</li> <li>Bydd hyrwyddwr/swyddog gwisgo a thynnu yn cael ei neilltuo a bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i'r tîm cyfan. Cesglir sicrwydd yn sgil archwiliadau atal a rheoli heintiau dyddiol.</li> <li>Mae'r Pennaeth Nyrsio wedi cysylltu â'r staff mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau yn unol â'r Weithdrefn Safonau Glendid.</li> </ul>	<p><b>Prif Swyddog Gweithredu</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>17/09/21</b></p> <p><b>30/09/21</b></p> <p><b>Ar unwaith – cwblhawyd 16/09/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Nodwyd arweinwyr tîm i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn ddyddiol (<b>Atodiad 3</b>). Mae cynllun ar waith i bwysleisio cyfrifoldebau'r tîm amlddisgyblaethol o fewn yr Adran Achosion Brys i gynnal safonau uchel.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r rheidrwydd i lynu at y canllawiau priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol wedi cael ei ailbwysleisio i'r timau clinigol drwy sawl dull: <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfryngau cymdeithasol</li> <li>E-bost</li> <li>Cyfarfodydd dyddiol ar diogelwch i staff</li> </ul> </li> </ul> <p><b>(Atodiad 33, 34, 35, 36)</b> Mae'r adolygiad boreol dyddiol gan y nyrs â gofal a gwiriad yn y prynhawn gan un o'r uwch-arweinwyr hefyd yn atgyfnerthu'r</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Dechreuwyd 16/09/21</b> <b>Ar waith</b></p> <p><b>08/10/21</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gofyniad i gynnal y safonau priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, gan annog y tîm i herio eraill os nad yw safonau'n dilyn yr arweiniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod arwyddion a phosteri priodol i sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r gofynion cyfarpar diogelu personol yn yr adran. Mae'r tîm wedi comisiynu cwmni i osod arwyddion ym mhob rhan o'r adran ac ar safle'r ysbyty.</li> <li>Mae gwiriwr symptomau wedi cael ei osod 24/7 ym mhrif fynedfa'r adran i asesu statws COVID tebygol cleifion a gwahanu'r cleifion yr amheuir bod COVID ganddynt neu y cadarnhawyd bod COVID ganddynt a'u harwain i ystafell aros arall.</li> </ul>	<p><b>Rheolwr Ystadau</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p> <p><b>Nyrs Arweiniol yr Adran Achosion Brys</b></p>	<p><b>Cwblhawyd 17/09/21</b></p> <p><b>Dechreuwyd 17.09.21 ac yn barhaus</b></p> <p><b>Cwblhawyd 17/09/21. Asesir risg bob dydd</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwiriwr symptomau yn monitro p'un a yw'r rheolau ynghlych cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol yn cael eu parchu yn ardal yr ystafell aros er mwyn lliniaru'r risgiau gymaint â phosibl.</li> <li>Gwnaeth newidiadau ar unwaith i'r polisi gweithredol yn yr Adran Achosion Brys sydd wedi caniatáu i goridau y man anafiadau difrifol beidio â chael ei ddefnyddio i ofalu am gleifion mwyach (Atodiad 43).</li> </ul> <p>Mae set benodol o gamau gweithredu'n cael eu datblygu i adolygu'r gwahanu cyffredinol o lwybrau ar y cyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae camau gweithredu ar unwaith mewn</p>	<p><b>Prif Swyddog Gweithredu</b></p> <p><b>Rheolwr Cyffredinol y Safle Acíwt ar y cyd â nyrs arweiniol y Grŵp Ardal Integredig</b></p> <p><b>Arweinydd Corfforaethol y Grŵp Ardal</b></p>	<p><b>17/09/21</b></p> <p><b>Monitro parhaus trwy hapwiriadau bob dydd a gefnogir gan y Grŵp Ardal Integredig</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>perthynas â gwneud yr ystafell aros a'r gwaith o wahanu staff yn ddiogel wedi cael eu cwblhau. Mae'r gwaith manylach mewn perthynas ag ailfodelu'r Adran Achosion Brys wrthi'n cael ei wneud ar y cyd â'r tîm atal a rheoli heintiau ac lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n cael ei ddisgrifio isod ar dudalen 27.</p> <p>Cwblhawyd archwiliad blynyddol atal a rheoli heintiau ym mis Ebrill gyda chydymffurfedd o 61% – mae camau ar unwaith wedi'u cymryd a'u cwblhau <b>(Atodiad 15)</b>. Cwblhawyd archwiliad llawn pellach gan y tîm atal a rheoli heintiau o'r Adran Achosion Brys ar 16 Medi a nodwyd sawl cam. Nodwyd bod cydymffurfedd yn 53% <b>(Atodiad 1)</b> a chymerwyd camau ar unwaith i ddatrys y pryderon <b>(Atodiad 4)</b>.</p>	<p><b>Integredig – Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio a Chyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig</b></p>	<p><b>Dechreuwyd 20/09/21 ac yn barhaus</b></p> <p><b>Dechreuwyd 20/09/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae monitro parhaus o'r ardaloedd yn parhau bob dydd gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno rhwng 7am a 9am (<b>Atodiad 16</b>) gan y nyrs â gofal, a chyflwynir adroddiad i'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig. Mae uwch-arweinwyr yn cerdded o gwmpas yr adran bob prynhawn i adolygu aciwtedd yr adran a phryderon y Grŵp Ardal Integredig, ac i gyfarfod â staff a sicrhau amlygrwydd cryf gan arweinwyr (<b>Atodiad 2</b>). Mae'r camau sydd eu hangen ac a gymerwyd o'r monitro bob dydd wedi'u nodi yn <b>Atodiad 42</b>.</p> <p>Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r archwiliad glanhau dros y 12 mis diwethaf gyda chanlyniad ar gyfartaledd o 89% (<b>Atodiad 5</b>).</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p> <p><b>Rheolwr Cyfleusterau</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>17/09/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae cymorth cadw tŷ wedi'i gynyddu i 24/7, gan ddechrau ar 20/9/21, gydag adolygiad bob dydd o safonau gan y rheolwr cyfleusterau.</p> <p>Mae'r Pennaeth Nyrsio wedi cyfathrebu â staff mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau yn unol â'r Weithdrefn Safonau Glendid, ac mae arweinwyr tîm wedi cael eu nodi ar gyfer yr ardaloedd i sicrhau y cynhelir safonau bob dydd (<b>Atodiad 3</b>). Mae cynllun ar waith i bwysleisio cyfrifoldebau'r tîm amlddisgyblaethol yn yr Adran Achosion Brys i gynnal safonau uchel.</p>		
Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr Adran Achosion Brys yn cael ei staffio i lefel ddiogel a	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a	Yn sgil ôl troed yr Adran Achosion Brys, mae wedi'i gydnabod yn y cynllun gwella (Mehefin 2021) y	<b>Prif Swyddog Gweithredu</b>	<b>Cwblhawyd Mehefin 2021</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>bod mesurau lliniaru ar waith i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â chynllun yr ardal.</p>	<p>hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>dylai'r gofynion staffio meddygol yn y nos gael eu cynyddu un radd ganol gyda'r buddion cydnabyddedig:  Llif gwell  Cymorth i staff iau  Diogelwch gwell  Profiad gwell i'r claf  Amseroedd atgyfeirio gwell yn sgil trafodaethau rhwng deiliaid graddau canol  Perfformiad pedair awr gwell Lleihau oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys <b>(Atodiad 11)</b></p> <p>Y staff nyrsio a gyllidir yw deg nyrs gofrestredig a phedwar gweithiwr cymorth gofal iechyd; mae hyn wrthi'n cael ei adolygu yn unol ag ôl troed yr adran a'r newidiadau awgrymedig i dempled yr adran – mae papur staffio wrthi'n cael ei ddrafftio.</p>	<p><b>Cyfawryddwr y Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Gweithrediada u'r Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp</b></p>	<p><b>Cwblhawyd Tachwedd 2020</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae lefelau staffio yn cael eu monitro mewn adroddiad profforma staffio bob dydd a rennir gyda'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Pan na llenwir lefelau staffio trwy nyrsys banc neu asiantaeth, ceisir cymeradwyaeth am ddefnyddio cwmni Thornbury <b>(Atodiad 12)</b>.</p> <p>Mae'r nyrs arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu wedi bod yn cyfarfod bob mis ag uwch-nyrs yr Adran Achosion Brys i fonitro'r gofynion llywodraethu a rheoli ar gyfer y rôl. Mae adolygiadau o ddatblygiad a pherfformiad, absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau swyddi gwag yn ffurfio rhan o'r cyfarfod hwn, sy'n llywio'r broses o uwchgyfeirio pryderon i'r Pennaeth Nyrsio <b>(Atodiad 18, 24)</b>. Cynhelir y</p>	<p><b>Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Yn barhaus</b></p> <p><b>Yn barhaus</b></p> <p><b>Cynhelir cyfarfodydd adolygu data ansawdd a diogelwch y Grŵp Ardal</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cyfarfodydd hyn bob wythnos bellach.</p> <p>Bydd yr adolygiad o ddigwyddiadau, pryderon, cwynion a phrofiad y claf yn triogli effeithiolrwydd y camau.</p>	<p><b>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Ardal Integredig</b></p>	<p><b>Integredig bob wythnos</b></p>
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod mesurau ar waith i sicrhau bod cleifion sydd yn yr ystafell aros yn cael eu goruchwyllo a'u monitro i sicrhau eu diogelwch.</p>	<p><b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p> <p><b>Safon 2.2</b> Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd</p>	<p>Gweithredu rôl 'gwiriwr symptomau' sy'n nyrs gofrestrdig wrth brif ddrws yr adran i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio i'r ardal gywir yn dibynnu ar eu cyflwr. Bydd presenoldeb y nyrs gofrestrdig hon drwy'r amser yn sicrhau goruchwyliaeth o'r ystafell aros. Mae swyddog diogelwch hefyd yn bresennol wrth y drws i roi sicrwydd a chymorth ychwanegol (<b>Atodiad 41</b>).</p> <p>Mae gan gleifion sydd yn yr ystafell aros COVID-19 ar hyn o bryd, nad ydynt yn weladwy gan y nyrs gofrestrdig, broses rowndio o 30</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Dechreuwyd 16/09/21</b></p> <p><b>Yn barhaus</b></p> <p><b>Gweithredwyd 23/09/21 gyda gwaith monitro parhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>munud ar waith i adolygu'r cleifion <b>(Atodiad 44)</b>. Mae'r tîm yn ystyried defnyddio cloch alw.</p> <p>Mae llwybr wedi'i weithredu i sicrhau bod yr holl gleifion sydd wedi cael eu brysbennu'n cael eu blaenoriaethu a'u monitro yn unol â chanllawiau brysbennu Manceinion <b>(Atodiad 27)</b>.</p> <p>Mae larwm cynnwrf wedi'i osod y tu ôl i ddesg y dderbynfa yn yr ystafell aros. Bydd hyn yn caniatáu ymateb cyflym os nodir claf sy'n dirywio yn yr ystafell aros rhwng y rowndiau 30 munud.</p> <p>Mae cloch alw nyrs mewn argyfwng yn cael ei gosod y tu ôl i ddesg y dderbynfa, a allai ei thynnu i hysbysu'r tîm meddygol/nyrsio yn yr adran am argyfwng meddygol. Pan fydd hon yn cael ei gosod, gall y tîm</p>	<p><b>Nyrs Arweiniol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu</b></p> <p><b>Rheolwr Ystadau</b></p> <p><b>Rheolwr Ystadau</b></p>	<p><b>Cwblhawyd 22/09/21</b></p> <p><b>08/10/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ddefnyddio'r larwm cynnwrf yn ei lle. Bydd hwn yn cael ei ddisodli ar ôl i'r mân waith i ailfodelu waliau yn yr ystafell aros gael ei gwblhau.</p> <p>Fel rhan o newidiadau llwybr yr Adran Achosion Brys, rhoddir capasiti ychwanegol ar gyfer mân anafiadau, a fydd yn gwella amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys a lleihau nifer y cleifion sy'n aros – gan gynorthwyo'r gwaith o leihau'r risg yn yr ystafell aros.</p>	<b>Prif Swyddog Gweithredu</b>	<b>31.10.21</b>
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod mesurau ar waith i atal mynediad heb awdurdod i bob ardal yr adran na chynllunnir ar gyfer mynediad cyhoeddus a bod mesurau ar waith i amddiffyn staff a chleifion.</p>	<p><b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae gorchuddion rhyddhau drws torri gwydr wedi cael eu gosod ar ddrysau rhwng rhannau o'r adran.</p> <p>Mae cysylltiadau diogelwch magnetig hefyd wedi'u gosod i sicrhau y bydd y system ddrws yn cloi ac na ellir ei diystyru. Bydd hwn yn cael ei fonitro gan nyrs â gofal yr</p>	<b>Rheolwr Cyfleusterau</b>	<b>Cwblhawyd</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ardal bediatrig a'r man mân anafiadau, wrth ailbwsleisio hefyd na ddylid defnyddio'r ardal fel ffordd drwodd.</p> <p>Mae gweithredu'r gwiriwr symptomau a diogelwch ar y prif ddrws hefyd yn sicrhau na ellir defnyddio'r adran fel ffordd drwodd gan eu bod yn cyfeirio staff/ymwelwyr i brif fynedfa'r ysbyty er mwyn cael mynediad at rannau eraill o'r ysbyty.</p> <p>Mae arwyddion ychwanegol i gefnogi cloi drysau wrthi'n cael eu cynhyrchu.</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p> <p><b>Rheolwr Cyfleusterau</b></p>	<p><b>Cwblhawyd 17/09/21</b></p> <p><b>14.10.21</b></p>
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn adolygu cynllun presennol yr Adran Achosion Brys i sicrhau bod gwahanu digonol ac na rhoddir cleifion nad</p>	<p><b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Ar y cyd â chydweithwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru, Gwelliant Cymru a thîm atal a rheoli heintiau Cwm Taf Morgannwg, a chydweithwyr</p>	<p><b>Rheolwr Cyffredinol y Safle Acíwt ar y cyd â Nyrs</b></p>	<p><b>29/10/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ydynt yn gleifion COVID-19, aelodau'r cyhoedd a staff mewn perygl trwy ddod i gysylltiad â chleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19.</p> <p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniadau presennol ac adlewyrchu canllawiau cenedlaethol wrth ailgynllunio gwasanaethau i ddiwallu gwahanol anghenion gofal cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 a chleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19.</p>	<p><b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>clinigol a gweithredol, mae llwybr drafft diwygiedig wedi cael ei ddatblygu (gweler Atodiad 28, 29). Bydd y llwybr hwn yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod yr ymweliad mewn perthynas â gwahanu cyffredinol llwybrau cleifion, defnydd yr ystafelloedd aros, defnydd y man asesu i feddygon teulu, a mynediad heb awdurdod at ardaloedd clinigol.</p> <p>Mae angen datrys dau fater sy'n weddill:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb y llwybr presennol gyda newidiadau disgwylidig i ganllawiau atal a rheoli heintiau cenedlaethol (yn destun ymgynghori ar hyn o bryd)</li> <li>• Protocolau gweithredol ar gyfer newidiadau yn y llwybr pediatrig i</li> </ul>	<p><b>Arweiniol Atal a Rheoli Heintiau</b></p>	

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gefnogi'r cynnig llwybr diwygiedig cyffredinol</p> <p>Mae'r llwybr gofal ar gyfer cleifion pediatrig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i sicrhau y symudiad diogel o blant yn yr adran. Oherwydd absenoldeb data clir mewn perthynas ag oedi i gleifion gael eu trosglwyddo i'r ward, mae'r tîm wedi gweithredu proses uwchgyfeirio yn dilyn 60 munud o benderfyniad i dderbyn er mwyn llywio'r broses o benderfynu ar lwybr. Os yw cleifion yn cael eu hoedi am fwy na 60 munud, mae gofyn i'r tîm gwblhau digwyddiad Datix i sicrhau bod pob achos yn cael ei adolygu mewn modd amserol i bennu'r rhesymau dros yr oedi.</p> <p>Mae'r llwybr hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan y newidiadau sy'n arwain at derfynu'r defnydd o</p>	<p><b>Rheolwr Cyffredinol y Safle Acíwt / Pennaeth Nyrso / Clinigwyr Arweiniol</b></p>	<p><b>Parhaus, yn unol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru</b></p> <p><b>08/10/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>goridor y man anafiadau difrifol ar gyfer gofalu am gleifion.</p> <p>Bydd cleifion yn derbyn gofal yn y ciwbiclau wrth fynd i'r Adran Achosion Brys yn lliniaru rhai o'r risg o fewn y rheolaeth o gleifion â COVID-19.</p> <p>Bydd rôl y gwiriwr symptomau yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 yn cael eu rheoli trwy bwynt mynediad gwahanol i'r adran. Mae hwn yn cael ei fonitro'n barhaus trwy gydol y dydd yn ystod cyfarfodydd gwelyau a chyfarfodydd adrannol gydag uwchgyfeirio at yr uwch-reolwr ar alwad yn ôl yr angen.</p> <p>Rydym wedi adolygu'r mater o gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau yn yr adran ddadebru a</p>	<p><b>Nyrs Arweiniol Gofal Heb ei Drefnu</b></p>	<p><b>Monitro parhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>defnydd y coridor anafiadau difrifol ar gyfer cleifion llwybr coch. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth trwy ein system Datix fod hyn wedi digwydd ac rydym wedi adolygu'r sefyllfa gyda'r tîm, sy'n cytuno. Fodd bynnag, rydym wedi ailgadarnhau'r llwybr presennol ar gyfer rheoli llwybrau gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau (defnyddio Ward 3) a rôl ciwbiclau'r Uned Penderfyniadau Clinigol ar gyfer cleifion llwybr coch. Bydd arweinydd clinigol yr Adran Achosion Brys yn parhau i fonitro'r mater hwn.</p> <p>Mae strwythur tîm rheoli brigiadau ar waith o fewn y bwrdd iechyd i gefnogi'r gwaith o reoli COVID-19 ar safleoedd yr ysbytai (<b>Atodiad 30, 31, 32</b>).</p> <p>Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn, mae'r camau canlynol yn ofynnol ar</p>		



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>y cyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid/partneriaid eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r asesiad llawn o'r effaith ar ansawdd</li> <li>• Datrys materion y llwybr pediatrig</li> <li>• Cleifion llwybr meddyg teulu i ddilyn y llwybr cyffredinol neu ddod o hyd i leoliad amgen</li> <li>• Rhai mân waith ystadau i'w gwblhau</li> <li>• Gorffen model staffio'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau dynodi parthau</li> </ul>		
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod staff yn glynu at ganllawiau cenedlaethol mewn perthynas â hylendid dwylo a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol.</p>	<p><b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Cwblhawyd archwiliadau hylendid dwylo gan y tîm atal a rheoli heintiau bob mis, a fydd bellach yn cael eu cwblhau bob wythnos; nid yw'r archwiliadau wythnosol gofynnol yn yr Adran Achosion Brys wedi'u cwblhau'n gadarn. Mae arweinwyr bellach wedi cael eu nodi a rhoddir hyfforddiant i sicrhau'r gwaith o</p>	<p><b>Pennaeth Nyrso, gyda chefnogaeth gan yr uwch-nyrs ar gyfer atal a rheoli heintiau</b></p>	<p><b>Monitro parhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwblhau a chydymffurfio bob wythnos. Bydd hwn yn cael ei fonitro gan y tîm atal a rheoli heintiau.</p> <p>Mae'r uwch-nyrs, y tîm atal a rheoli heintiau a'r tîm cadw tŷ wedu adolygu'r adran i sicrhau bod hylif diheintio dwylo ar gael trwy gydol yr adran. Mae peiriannau cyflenwi priodol wedi'u gosod mewn ardaloedd a nodwyd ar gyfer peiriannau diheintio ychwanegol. Bydd y rhain yn cael eu monitro gan y tîm cadw tŷ ac yn fframwaith archwilio dyddiol y nyrs â gofal <b>(Atodiad 16)</b>.</p> <p>Mae cydymffurfedd â'r canllawiau cyfarpar diogelu personol priodol wedi cael ei ailbysleisio i'r timau clinigol mewn sawl ffordd: Y cyfryngau cymdeithasol E-bost Cyfarfodydd diogelu dyddiol</p>	<p><b>Nyrs Arweiniol Gofal Heb ei Drefnu</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio, Gwasanaethau Acíwt</b></p>	<p><b>Cwblhawyd 22/09/21</b></p> <p><b>Yn barhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cyfarfodydd ymgysylltu â staff <b>(Atodiad 33, 34, 35, 36)</b></p> <p>Mae'r adolygiad boreol dyddiol gan y nyrs â gofal a gwiriad yn y prynhawn gan un o'r uwch-arweinwyr hefyd yn atgyfnerthu'r gofyniad i gynnal y safonau priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, gan annog y tîm i herio eraill os nad yw safonau'n dilyn yr arweiniad.</p> <p>Gosod arwyddion a phosteri priodol i sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn ymwybodol o ofynion cyfarpar diogelu personol yn yr adran. Mae'r tîm wedi comisiynu cwmni i osod arwyddion trwy gydol yr adran a safle'r ysbyty.</p>	<p><b>Rheolwr Cyffredinol, Arweinydd Meddygol Ysbyty'r Tywysog Siarl</b></p> <p><b>Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Acíwt</b></p>	<p><b>08/09/21</b></p>
Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod offer	<b>Safon 2.1</b> Rheoli risg a	Mae'r holl offer sydd ei angen ar gyfer yr ystafell frysbenneu COVID-	<b>Pennaeth Nyrsio</b>	<b>Cwblhawyd 17/09/21</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hanfodol sydd ei angen i asesu a monitro cleifion, megis monitro siwgr gwaed, ar gael yn yr ystafell aros COVID-19.	hybu iechyd a diogelwch  <b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas	19 wedi cael ei adolygu (16/09/21) a'i labelu, gan sicrhau nad yw'r offer yn cael ei gymryd o'r ardal. Bydd hwn yn cael ei fonitro bob dydd gan y nyrs â gofal.		
Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau y rhoddir mynediad priodol at doiledau ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r adran.	<b>Safon 2.4</b> Atal a rheoli heintiau a dihalogi  <b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas	Mae'r templed cyfredol yn sgil y pared yn yr ystafell aros wedi gwaredu argaeledd dau doiled ychwanegol ar gyfer ystafell aros y man mân anafiadau. Er bod gwaith yn mynd rhagddo gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â llif priodol cleifion yn unol â gofynion COVID-19, mae'r ardal yn parhau i gael un toiled ar gael. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod nad yw'r cyfluniad cyfredol mewn perthynas â	<b>Rheolwr Cyffredinol y Safle Acíwt</b>	<b>Yn barhaus</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>chyfleusterau toiled yn addas i ddiwallu anghenion adran brysur.</p> <p>Cwblhau'r gwaith llwybr fydd y llwybr i ddatrys hyn a bydd y dyddiad ar gyfer gweithredu'r mân waith yn cael ei gadarnhau ar ôl cytuno ar y llwybr.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y toiled yn lân a'i fod yn cael ei wirio'n rheolaidd, mae'r tîm domestig bellach yn bresennol yn yr adran drwy'r amser a bydd yn goruchwyllo'r toiled a'r ystafell aros bob awr i sicrhau y cynhelir safonau glendid. Mae hyn yn gynnydd sylweddol mewn adnoddau glanhau.</p>	<p><b>Rheolwr Cyfleusterau</b></p>	<p><b>Gweithredwyd 20/09/21 gyda gwaith monitro parhaus</b></p>
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau y cynhelir preifatrwydd ac urddas cleifion drwy'r amser yn yr Adran Achosion Brys.</p>	<p><b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas</p>	<p>Mae preifatrwydd ac urddas yn yr adran yn hollbwysig a chafodd hyn ei gydnabod yn ystod yr ymweliad â'r safle. Mae sawl newid wedi cael</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Cwblhawyd 23/09/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p><b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p> <p><b>Safon 5.1</b> Mynediad amserol</p>	<p>eu gwneud i wella hwn ymhellach, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi'r gorau i ddefnyddio coridor y man mân anafiadau</li> <li>• Newidiadau yn y man mân anafiadau difrifol ar gyfer triniaethau dydd i sicrhau bod pedair ardal glinigol ychwanegol briodol arall, cadeiriau cyfforddus priodol a sgriniau rhwng cleifion, ynghyd ag offer unigol i bob man i gleifion. Cwblhawyd y gwaith hwn ar 23.09.21.</li> </ul> <p>Mae hyn yn sicrhau bod cleifion sy'n 'ffit i eistedd' yn derbyn gofal mewn amgylchedd priodol gyda goruchwyliaeth nyrsio. Bydd gofal y cleifion hyn yn cael ei oruchwyllo gan nyrs â gofal ac yn cael ei drafod yn y</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cyfarfodydd tîm trwy gydol y shift.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cleifion yn derbyn gofal mewn ciwbiclau preifat yn yr adran, sy'n cynnig preifatrwydd ac urddas. Er mwyn sicrhau y gall yr adran gefnogi rhyddhau ambiwlans ar unwaith neu drosglwyddo/derbyn claf sâl i'r adran, mae Cwbical 7 wedi'i neilltuo i fodloni'r gofyniad hwn <b>(Atodiad 45)</b>.</li> <li>Cefnogir cysur cleifion yn yr adran gan y Groes Goch Brydeinig. Rydym yn darparu diodydd poeth a bwyd o dan oruchwyliaeth y nyrs â gofal i gefnogi cleifion sy'n derbyn triniaeth weithredol yn yr adran.</li> </ul> <p>Yn ystod cyfnodau o uwchgyfeirio, cynhelir cyfarfodydd asesiad risg</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sefyllfaol ychwanegol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar bryderon diogelwch, aros am welyau, a chapasiti/risg yn yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Mae cleifion sy'n aros ar ambiwlans ar ôl cyrraedd yr ysbyty os nad oes capasiti yn yr adran yn parhau i dderbyn gofal gan griw yr ambiwlans cyn iddynt allu cael eu derbyn yn unol â'r weithdrefn weithredu safonol (<b>Atodiad 39</b>).</p>		
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn gwella llif cleifion trwy'r Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol i leihau amseroedd aros a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd amserol a phriodol.</p>	<p><b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas</p> <p><b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Yn unol â chynllun gwella'r Adran Achosion Brys, mae cynnig i fynd i'r afael â heriau gwella llif a diogelwch yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful. Bydd staff Gwelliant Cymru a staff ardal Merthyr a Chynon yn cydweithio, gan rannu profiadol gweithredol, arbenigedd a phrofiad o leoedd eraill i adolygu trefniadau cyfredol a chynllunio gwelliannau.</p>	<p><b>Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio mewn partneriaeth â Gwelliant Cymtu</b></p>	<p><b>Yn barhaus</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p><b>Safon 5.1</b> Mynediad amserol</p>	<p>Mae'r rhaglen hon wedi'i chreu yn dilyn cais gan Dîm Gweithredol Cwm Taf Morgannwg. Bydd y dysgu o'r rhaglen waith hon yn llywio gwelliannau eraill mewn perthynas â llif ar safleoedd aciwt eraill yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cefnogir y gwaith hwn gan Welliant Cymru(<b>Atodiad 38</b>).</p> <p>Mae cyfarfodydd gwelyau mewn grym tair gwaith y dydd gyda'r cynrychiolydd eistedd yn cael ei rannu gyda'r uwch-dîm arwain a swyddogion gweithredol; mae'r rhain yn cael eu monitro ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol ynghyd â'r safleoedd aciwt eraill yng Nghwm Taf Morgannwg i sicrhau bod aciwtedd yn cael ei uwchgyfeirio (<b>Atodiad 60</b>).</p> <p>Mae gofyn am sawl haen o ddata ar y bwrdd iechyd i ddarparu</p>	<p><b>Pennaeth Llif Cleifion</b></p> <p><b>Cyfarwyddwr Gweithrediada u'r Grŵp Ardal Integredig mewn partneriaeth ag</b></p>	<p><b>Cwblhawyd ac yn barhaus</b></p> <p><b>26/11/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>mewnwelediad gwell i weithrediadau beunyddiol yr Adran Achosion Brys, er mwyn ei alluogi i olrhain, tueddu a rhagamcangyfrif llif gwaith effaith uchel a deall perfformiad. Bydd datblygu dangosfwrdd i'r Adran Achosion Brys sy'n cofnodi'r ffactorau hyn yn cynorthwyo yn y gwaith o drawsnewid darpariaeth gofal o ansawdd.</p> <p>Mae llwybr gofal er mwyn rheoli a chefnogi menywod sy'n colli babi yng nghyfnodau cynnar eu beichiogrwydd yn briodol wrthi'n cael ei ddrafftio (<b>Atodiad 54</b>) a disgwylir i'w weithredu erbyn 30/09/21. Bydd y llwybr hwn yn sicrhau bod menywod yn cael eu trin mewn ciwbicl preifat ac urddasol ar y ward lawfeddygol gan staff sydd â phrofiad o ofalu am fenywod sy'n cael camesgoriad.</p>	<p><b>Archwiliadau Clinigol a Gwybodeg Ansawdd</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrsio mewn partneriaeth â thîm Grŵp Gwasanaethau Clinigol WC&amp;F</b></p> <p><b>Rheolwr Cyffredinol y</b></p>	<p><b>30/09/21</b></p> <p><b>08/10/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r gwaith o reoli cleifion â ddisgwylir i fod yn gleifion llawfeddygol wedi cael ei adolygu ac mae llwybr gofal drafft yn y cam ymgynghori ar hyn o bryd. Bydd hyn yn sicrhau y llif amserol o gleifion y tu allan i'r Adran Achosion Brys (<b>Atodiad 55</b>).</p>	<p><b>Safle Aciwt</b></p>	
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu monitro yn unol â'r amllder gofynnol a amlinellir mewn polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol.</p>	<p><b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas</p> <p><b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p> <p><b>Safon 5.1</b> Mynediad amserol</p>	<p>Mae llwybr wedi'i weithredu i sicrhau bod yr holl gleifion sydd wedi cael eu brysbennu'n cael eu blaenoriaethu a'u monitro yn unol â chanllawiau brysbennu Manceinion (<b>Atodiad 27</b>).Bydd hwn yn cael ei fonitro yn y cyfarfod dyddiol a bydd digwyddiadau oedi i ofal yn cael eu hadrodd yn y system Datix.</p> <p>Mae gan gleifion sydd yn yr ystafell aros COVID-19 ar hyn o bryd, nad ydynt yn weladwy gan y nyrs gofrestrdig, broses rowndio o 30</p>	<p><b>Nyrs Arweiniol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu</b></p>	<p><b>Dechreuwyd 22/09/21</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>munud ar waith i adolygu'r cleifion <b>(Atodiad 44)</b>. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cwmpasu'r posibilrwydd o osod cloch alw i gleifion ei defnyddio pe bai angen iddynt alw nyrs y tu allan i'r rowndio 30 munud.</p> <p>Mae archwiliad Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol diweddar wedi nodi bod siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu cwblhau i safon uchel a nodwyd gwelliant parhaus <b>(Atodiad 20 a 21)</b>.</p>		
<p>Mae angen manylion ar AGIC ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr holl gleifion sy'n dangos symptomau sepsis yn cael eu sgrinio'n briodol a'u trin mewn modd amserol.</p>	<p><b>Safon 4.1</b> Gofal ag urddas</p> <p><b>Safon 3.1</b> Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae cydymffurfedd â'r pecyn Sepsis 6 yn cael ei fonitro bob mis gyda tharged cydymffurfio o 85%; y cydymffurfedd cymedrig cyfredol ers mis Mawrth 2021 yw 73% <b>(Atodiad 40)</b>.</p> <p>Mae hyfforddiant unigryw ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol wedi'i drefnu i</p>	<p><b>Nyrs Arweiniol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu</b></p>	<p><b>Monitro parhaus trwy archwilio a rheoli/archwilio digwyddiadau</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<b>Safon 5.1</b> Mynediad amserol	gael ei gynnal ar y dyddiadau calynol: 28 Medi 2021 6 Hydref 2021 13 Hydref 2021  Bydd cydymffurfedd â'r pecyn Sepsis 6 hefyd yn cael ei fonitro trwy reoli digwyddiadau ac archwiliadau clinigol.		
Mae AGIC yn gofyn am fanylion ynghylch sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'u dyletswydd i gadw cofnodion cywir, cyfredol a chyfoes ar bob adeg.	<b>Safon 3.5</b> Cadw cofnodion	Cwblhawyd adolygiad o ddogfennau'r Adran Achosion Brys ym mis Gorffennaf 2020 gyda chymorth y tîm gwella ansawdd a chafodd maint y dogfennau ei addrefnu i leihau ailadrodd. Cwblhawyd archwiliad sylfaenol o'r restr wirio diogelwch cleifion ym mis Mehefin 2021 cyn dechrau'r prawf newid yn unol â methodoleg gwella ansawdd ( <b>Atodiad 17</b> ). Mae cynnydd y rhaglen wella mewn perthynas â dogfennau'n parhau i	<b>Pennaeth Nyrso a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol dros Feddygaeth Frys</b>	<b>Yn barhaus</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gael ei gefnogi gan y tîm gwella ansawdd gyda diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn <b>Atodiad 19</b>.</p> <p>Mae cyflwyno'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ddiwedddedig yn ddiweddar wedi cael ei gefnogi a'i fonitro gan y tîm, gyda chydymffurfedd yn yr Adran Achosion Brys yn cael ei nodi yn y prif tri ar safle Ysbyty'r Tywysog Siarl (<b>Atodiad 20, 21 a 22</b>).Mae perfformiad a chydymffurfedd yn cael eu monitro bob mis a rhennir y canfyddiadau gyda thîm yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Mae safonau dogfennau yn cael eu monitro mewn sawl maes trwy'r broses lywodraethu, mewn adolygiadau o ddigwyddiadau, trwy ddadansoddi wraidd y broblem, ar baneli craffu, a thrwy reoli pryderon.</p>	<p><b>Pennaeth Nyrso a Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol dros Feddygaeth Frys</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrso, Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Acíwt, Arweinydd Meddygol Ysbyty'r Tywysog Siarl</b></p>	<p><b>Mae perfformiad a chydymffurfedd yn cael eu monitro bob mis</b></p> <p><b>Yn barhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae dysgu a chanfyddiadau'n cael eu rhannu â'r tîm clinigol â'r tîm rheoli trwy nifer o fforymau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:</p> <p>Cyfarfodydd arweinwyr tîm  Cyfarfodydd diogelwch  Cyfarfodydd llywodraethu wythnosol y Grŵp Gwasanaethau Clinigol  Cylchlythyr</p> <p>Paneli craffu cwympiadau a datblygiad corfforol  Cyfarfodydd adrannol  Hyfforddiant dadansoddi wraidd y broblem / ymchwilio i ddigwyddiadau  Cynlluniau gwella ward  Cynllun gweithredu  Fforwm gwrando a dysgu  <b>(Atodiad 23, 24, 25)</b>  Mae fframwaith dysgu'n cael ei ddatblygu i'r sefydliad nodi'r holl ffynonellau dysgu a datblygu</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>systemau cadarn i ledaenu a rhannu dysgu er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ynghyd ag arloesi a gwella.</p> <p>Mae dogfennau blynyddol staff meddygol wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar gyda chanfyddiadau cadarnhaol yn cael eu nodi yn <b>Atodiad 37</b>.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau arwain cadarn a phriodol mewn grym gyda phrosesau a mesurau llywodraethu cadarn ac effeithiol.</p>	<p><b>Llywodraethu ac arweinyddiaeth</b></p>	<p>Mae gan y bwrdd iechyd fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion sefydliadol sy'n amlinellu ei sefyllfa mewn perthynas â threfniadau llywodraethu trosfwaol.</p> <p>1. Mae trefniadau lleol o fewn y Grŵp Ardal Integredig a'i wasanaethau yn darparu sicrwydd trwy'r canlynol: Strwythur cyfarfodydd y Grŵp</p>	<p><b>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso</b></p>	<p><b>Monitro parhaus yn unol â phroses llywodraethu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gwasanaethau Clinigol <b>(Atodiad 51)</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>2. Strwythur llywodraethu'r Pennaeth Nyrsio <b>(Atodiad 46, 47, 48, 49)</b></li> <li>3. Strwythur y Grŵp Ardal Integredig <b>(Atodiad 50)</b></li> <li>4. Cymorth gweithreol ynglŷn â gwaith gwella</li> <li>5. Polisi uwchgyfeirio pryderon</li> <li>6. Adborth gan staff yn y cynllun ymgysylltu</li> </ol> <p>Mae adolygiadau allanol blaenorol yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi nodi pryderon mewn perthynas ag arweinyddiaeth a diwylliant fel pryder traws-sefydliadol ac felly maent wedi datblygu strategaeth arweinyddiaeth trwy'i weithlu a chydweithwyr datblygiad sefydliadol. Ochr yn ochr, mae pwyslais sylweddol ar lesiant cydweithwyr ac argaeledd cymorth mewnol ac allanol. Mae'r gofynion penodol ar gyfer datblygu a chefnogi arweinyddiaeth wedi cael eu hegluro yn y cynllun gwella.</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Byddwn yn gweithio gyda'r timau er mwyn bod yn fwy clir am rolau a chyfrifoldebau unigolion yn y tîm a sut y mae'r strwythur sefydliadol ehangach yn cefnogi'r adran i ofalu am gleifion. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio sesiynau ymgysylltu a sianeli cyfathrebu presennol.		
Mae angen sicrwydd ar AGIC gan y bwrdd iechyd nad yw'n canfyddiadau'n ddangosol o fethiant systemig i ddarparu gofal diogel, effeithiol ac urddasol ar draws yr holl wasanaethau.	<b>Llywodraethu ac arweinyddiaeth</b>	Ar lefel y bwrdd iechyd, mae fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion sefydliadol sy'n ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, gan arddangos sut mae'r bwrdd iechyd yn derbyn ymwybyddiaeth llinell welediad o'i wasanaethau. Mae gwelliannau i ddangosyddion perfformiad, metrigau ansawdd ac adroddiadau'r Grŵp Ardal Integredig i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi galluogi eglurder a goruchwyliaeth well o'r ffordd y darperir gwasanaethau a phrofiad y claf. Dangosir hyn drwy'i adroddiadau i'r bwrdd. Roedd pryderon mewn perthynas ag Adran Achosion Brys Ysbyty'r Tywysog	<b>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio</b>	<b>Yn barhaus gyda monitro gweithredol misol</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Siarl wedi cael eu huwchgyfeirio cyn adolygiad AGIC ac roedd cynllun gweithredu wedi'i gytuno gyda chynnydd yn cael ei fonitro gan y tîm gweithredol.</p> <p>Yn dilyn ymweliad AGIC, mae hwn wedi cael ei wella trwy rannu canfyddiadau Ysbyty'r Tywysog Siarl ar draws y bwrdd iechyd fel sbardun ar gyfer lefelau mwy o graffu ar ein gwasanaethau yn y fframwaith presennol.</p> <p>Rydym wedi cychwyn adolygiad o'r fframwaith llywodraethu presennol, o'r ffordd y darperir gwasanaethau hyd at y bwrdd, a disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd.</p> <p>Mae'r Grŵp Ardal Integredig yn cydnabod yr heriau presennol ac mae wedi cyflwyno rhaglen wella i</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ganolbwyntio ar yr Adran Achosion Brys, theatrau a wardiau a bydd hon yn cael ei defnyddio fel model gweithredu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.</p> <p>Cyflwynwyd y cynllun gwella ar gyfer yr Adran Achosion Brys a theatrau ym mis Mehefin 2021 (<b>Atodiad 8, 52</b>). Cafodd cynnydd ei fonitro bob wythnos ond mae bellach wedi datblygu i gyfarfod misol rhwng cyfarwyddwyr y Grŵp Ardal Integredig a'r tîm gweithredol (<b>Atodiad 6,7, 53</b>) ac adrodd i uwchreolwyr trwy strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Bydd hyn bellach yn dychwelyd i fod yn wythnosol.</p> <p>Mae Dogfen Cychwyn Prosiect wedi'i chynhyrchu i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach (<b>Atodiad 9</b>).</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ceisiwyd sicrwydd pellach o'r wardiau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a rhoddwyd fframwaith sicrwydd ar waith i adolygu'r holl ardaloedd ward gyda chanlyniadau cadarnhaol iawn yn cael eu nodi ( <b>Atodiad 53</b> ).		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerir i sicrhau bod y lefelau staffio drwy'r amser yn briodol i ddiwallu anghenion cleifion yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.	<b>Safon 7.1</b> Y gweithlu	Yn sgil ôl troed yr Adran Achosion Brys, mae wedi'i gydnabod yn y cynllun gwella (Mehefin 2021) y dylai'r gofynion staffio meddygol yn y nos gael eu cynyddu un radd ganol gyda'r buddion cydnabyddedig: Llif gwell Cymorth i staff iau Diogelwch gwell Profiad gwell i'r claf Amseroedd atgyfeirio gwell yn sgil trafodaethau rhwng deiliaid graddau canol Perfformiad pedair awr gwell Lleihau	<b>Cyfarwyddwr y Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Gweithrediada u'r Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig</b>	<b>Cwblhawyd</b>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys (<b>Atodiad 11</b>)</p> <p>Y staff nyrsio a gyllidir yw deg nyrs gofrestrdig a phedwar gweithiwr cymorth gofal iechyd; mae hyn wrthi'n cael ei adolygu yn unol ag ôl troed yr adran a'r newidiadau awgrymedig i dempled yr adran – mae papur staffio wrthi'n cael ei ddrafftio. Oherwydd yr heriau hyn, cytunwyd ar lefelau staffio o 13 nyrs gofrestrdig a phum gweithiwr cymorth gofal iechyd drwy'r amser; mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr ardal ddadebru ddwy nyrs Band 6 yn bresennol bob shiftt – nid oedd hyn yn ofyniad yn flaenorol (<b>Atodiad 26</b>).</p> <p>Yn yr adolygiad o'r lefelau staffio, rhoddwyd ystyriaeth i'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen yn y portffolio staffio i gefnogi'r gwasanaethau a</p>	<p><b>Cyfarwyddwr y Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Grŵp Ardal Integredig, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig</b></p>	<p><b>Cwblhawyd Tachwedd 2020</b></p> <p><b>Cwblhawyd Gorffennaf 2020</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ddarperir yn yr Adran Achosion Brys. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi'i gwblhau i sicrhau bod gan yr holl staff nyrsio ym Mand 2-7 yr sgiliau a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni eu rôl <b>(Atodiad 13, 14)</b>.</p> <p>Mae lefelau staffio yn cael eu monitro mewn adroddiad profforma staffio bob dydd a rennir gyda'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Pan na llenwir lefelau staffio trwy nyrsys banc neu asiantaeth, ceisir cymeradwyaeth am ddefnyddio cwmni Thornbury <b>(Atodiad 12)</b>.</p> <p>Mae'r nyrs arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu wedi bod yn cyfarfod bob mis ag uwch-nyrs yr Adran Achosion Brys i fonitro'r gofynion llywodraethu a rheoli ar gyfer y rôl.</p>	<p><b>Pennaeth Nyrsio</b></p>	<p><b>Yn barhaus</b></p> <p><b>Yn barhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae adolygiadau o ddatblygiad a pherfformiad, absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau swyddi gwag yn ffurfio rhan o'r cyfarfod hwn, sy'n llywio'r broses o uwchgyfeirio pryderon i'r Pennaeth Nyrzio <b>(Atodiad 18, 24)</b>.</p> <p>Bydd dangosfwrdd integredig yn cael ei ddatblygu yn y tymor canolig i roi ystwythder uwch wrth ymateb a dadansoddi llif gwaith effaith uchel.</p>	<p><b>Cyfarwyddwr Nyrzio'r Grŵp Ardal Integredig</b></p> <p><b>Pennaeth Nyrzio</b></p> <p><b>Nyrs Arweiniol dros Gofal Heb ei Drefnu,</b></p>	<p><b>Chwefror 2022</b></p>



Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol dros Feddygaeth Frys mewn partneriaeth</b>	
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerir i ddarparu cymorth parhaus i staff a hyrwyddo a chynnal llesiant staff.</p>	<p><b>Safon 7.1</b> Y gweithlu</p>	<p>Fel y nodwyd yn gynharach, mae wedi bod buddsoddiad sylweddol mewn rhoi cyfleoedd i staff gefnogi eu llesiant. Mae staff yn cael eu cyfeirio at y rhain trwy sawl dull yn y bwrdd iechyd, gan gynnwys:</p> <p>Y cyfryngau cymdeithasol</p> <p>SharePoint</p> <p>Tudalennau gwe Cwm Taf Morgannwg</p> <p>Fforymau ymgysylltu â staff</p> <p>Fforwm arweinyddiaeth</p> <p>Blog y Prif Swyddog Gweithredol</p> <p>Mae digwyddiad dysgu i gydweithwyr yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol wedi'i gynnal gydag ymgysylltiad pellach</p>	<p><b>Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio</b></p>	<p><b>Mae angen cymorth staff parhaus</b></p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wedi'i drefnu i drafod canfyddiadau AGIC yn agored a heb rannu bai, er mwyn annog cyfranogiad, myfyrio, a chyfnewid syniadau ar wella a newid.</p> <p>Darparu cymorth 'mynediad agored' i gydweithwyr yr effeithiwyd arnynt.</p> <p>Mae pwyslais sylweddol wedi'i roi ar sesiynau gwranddo ac ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda'r tîm ar unwaith ar ôl yr ymweliad i sicrhau bod gan y timau gyfle i rannu a mynegi barn.</p> <p>Mae'r tîm arwain ar bob lefel wedi gwella arweinyddiaeth weladwy yn sylweddol trwy gerdded o gwmpas a modelu gwerthoedd ac ymddygiadau'r bwrdd iechyd.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** Gareth Robinson

**Swydd:** Prif Swyddog Gweithredu

**Dyddiad:** 24 Medi 2021

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Ysbyty'r Tywysog Siarl

**Ward/adran:** Yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol

**Dyddiadau'r arolygiad:** 13, 14 a 15 Medi 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr iPad a ddarperir at ddefnydd y cleifion yn gweithio a bod cleifion yn gallu ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â'u perthnasau a'u ffrindiau.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae dau iPad wedi'u darparu, un ar gyfer defnydd cleifion yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ac un ar gyfer yr Adran Achosion Brys. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu gan yr adran TG i sicrhau eu bod wedi cael eu cyflunio'n gywir. Mewngofnodwyd i'r dyfeisiau iPad a chawson nhw eu gwirio ar gyfer cysylltiad digonol â'r rhyngwyd yn yr ardaloedd o ddefnydd gofynnol ac mae'r ddwy ddyfais yn gweithio'n iawn. Mae'r cyswllt TG neilltuedig wedi'i rannu â'r timau pe baent yn cael unrhyw	Dirprwy Reolwr Grŵp Gwasanaethau Clinigol yr Adran Achosion Brys	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>broblemau yn y dyfodol. Cedwir y dyfeisiau iPad ar stondinau er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion eu defnyddio a lleihau perygl yn unol â gofynion atal a rheoli heintiau. Mae cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys y strategaeth i sicrhau bod y cleifion yn llwyr ymwybodol bod y dyfeisiau iPad ar gael i'w defnyddio er mwyn cynnal cyfathrebiad â theulu/ffrindiau.</p>		
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu cynllun yr ystafell frysbennu arfaethedig i sicrhau ei bod yn addas at ei diben ac yn hygyrch i bobl â symudedd gwael, ac nad yw'n perygl diogelwch staff.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd cynllun arfaethedig newydd yr Adran Achosion Brys yn cynnwys dwy ystafell frysbennu yn y dderbynfa ar gyfer llwybrau anadlol a byddant yn bodloni safonau Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys. Mae opsiynau cyflwyno yn y dyfodol ar gyfer cynllun llawn yr Adran Achosion Brys yn cael eu hadolygu gyda phenseiri a thrafodir cyllid gyda Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio yr Ardal</p>	<p>11/12 Gwaith adeiladu dros dro fis Rhagfyr</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae gennym waith adeiladu wedi'i drefnu ar gyfer y trefniadau brysbennu dros dro ar 11 a 12 Rhagfyr.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r polisi rheoli meddyginiaethau.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Diweddarwyd y polisi cyfredol y llynedd gydag atodiadau am COVID-19. Mae'r drafft ar gyfer y polisi newydd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.	Cyfarwyddwr Clinigol a Phennaeth Rheoli Meddyginiaethau	01/03/2022
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i gadw'r holl bolisïau'n gyfredol.		Cymeradwyodd y bwrdd iechyd bolisi diwygiedig ar gyfer datblygu, adolygu a chymeradwyo polisïau sefydliad cyfan ym mis Ionawr 2021, ac mae hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer datblygu, ymgynghori, cymeradwyo, lledaenu ac adolygu dogfennau sefydliadol allweddol megis polisïau, strategaethau, gweithdrefnau, canllawiau a phrotocolau. Mae tudalen SharePoint y bwrdd iechyd yn gweithredu fel llyfrgell ar gyfer y dogfennau rheoli ysgrifenedig hyn, gan ddynodi'r cyfnod adolygu. Mae angen gwaith pellach i wella'r system ymhellach i fonitro a chefnogi adolygiadau mwy amserol gan awduron dogfennau ac mae	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg	31 Mai 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hyn wedi'i ymgorffori yn rhaglen waith y Tîm Llywodraethu Sefydliadol, ond mae'r rhaglen waith hon wedi cael ei effeithio'n niweidiol gan COVID-19 a materion capasiti parhaus. Mae asesiad risg wedi'i gynnal i ystyried effaith peidio â datblygu ar y cyflymder y byddai'r bwrdd iechyd wedi'i hoffi. Mae cyflymder y gwaith hefyd wedi'i gymhlethu gan ymateb y bwrdd iechyd i'r pandemig COVID-19 gan nad yw arweinwyr/awduron gweithredol wedi cael yr amser a/neu'r gallu i ymgymryd ag adolygiadau a diweddariadau amserol i'w dogfennau rheoli ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwn. Fel mesur dros dro, bydd y bwrdd iechyd yn gofyn i arweinwyr ymgymryd ag asesiad i sicrhau bod dogfennau rheoli ysgrifenedig ar gael ac yn estyn cyfnod adolygu er mwyn galluogi i adolygiad mwy cadarn gael ei gynnal gan ddefnyddio dull haenu risg. Mae'r polisi ar gyfer "Datblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisiâu Sefydliad Cyfan" a'r Offeryn Asesu Risg ar gyfer polisiâu wedi'u hatodi yn <b>Atodiadau 1 a 2</b>.</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cabinetau neu loceri y gellir eu cloi yn yr Adran Achosion Brys i gleifion gadw eu meddyginiaethau ynddynt.</p>		<p>Yn seiliedig ar gyngor rheoli meddyginiaeth, bydd cabinetau y gellir eu cloi yn cael eu caffael ar gyfer pob un o'r ciwbiclau a byddant yn cael eu gosod cyn gynted ag y maent wedi eu derbyn.</p>	<p>Dirprwy Reolwr Grŵp Gwasanaethau Clinigol yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Archebwyd 19/11/2021 a bydd y gwaith gosod yn seiliedig ar y dyddiad danfon</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rowndio bwriadol i sicrhau bod anghenion gofal cleifion sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd angen gofal, cymorth a goruchwyliaeth un i un arnynt yn cael eu diwallu'n llwyr drwy'r amser.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae rhestr wirio diogelwch cleifion yr Adran Achosion Brys bellach wedi'i gweithredu yn y man anafiadau difrifol. Mae'r trefniadau ar gyfer cwblhau rhestr wirio diogelwch cleifion yr Adran Achosion Brys, sy'n ffurfio rhan o'r broses, wedi'u hadolygu gan y tîm archwilio clinigol ac mae wedi arwain at y camau gweithredu canlynol er mwyn gwella cyfraddau cydymffurfedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Mae 500 o fersiynau lliw llawn o'r rhestr wirio wedi'u hargraffu ar gyfer staff ac mae cynllun wythnosol ar waith i sicrhau cyflenwad parhaus.</li> </ul>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd yr adolygiad ac mae gweithredu yn mynd rhagddo</p> <p>Monitro parhaus trwy'r rhaglen wella</p> <p>Diweddariad ar gydymffurfedd i gael ei roi ar yr adeg ddiweddar</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ii. Mae'r tîm archwilio clinigol wedi darparu hyfforddiant i staff Band 7 ar sut i gwblhau'r archwiliad.</p> <p>Bydd cyfraddau cydymffurfedd yn cael eu hadrodd i Fwrdd Rhaglen Wella Ysbyty'r Tywysog Siarl bob mis.</p> <p>Mae dogfen drosglwyddo'r nyrs â gofal wedi'i chreu a'i gweithredu i sicrhau bod anghenion diogelwch cleifion penodol yn cael eu hamlygu ar ddechrau pob shift a bod staff yn ymwybodol o ddiogelwch cyffredinol y cleifion yn yr adran. Mae proses drosglwyddo tîm newydd wedi cael ei chyflwyno.</p>		nesaf ym mis Rhagfyr 2021
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff fynediad at gyfleoedd hyfforddiant, ac amser penodol i ymgymryd â hyfforddiant, er mwyn datblygu sylfaen eu gwybodaeth a chymhwysedd. Dylai'r hyfforddiant hwn gwmpasu	7.1 Y gweithlu	Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi i staff wedi'i gwblhau, gan gynnwys mapio yn erbyn hyfforddiant gorfodol y Cofnod Staff Electronig.	Nyrs Arweiniol ar gyfer yr Adran Achosion Brys a Chyfarwyddwr Clinigol ar gyfer yr	Gwaith cyflawni ar waith Monitro hyfforddiant statudol a

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>pynciau sy'n benodol i'r gwasanaeth yn ogystal â phynciau gorfodol.</p>		<p>Mae nifer o gyfleoedd hyfforddi yn cael eu datblygu i staff, gan gynnwys cyrsiau hyfforddiant mewnol ac allanol.</p> <p>Mae cynnydd ymhlith cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol – er enghraifft, diogelu plant 71.7%, dementia 93.44% a diogelu oedolion Lefel 2 75.44%, wedi codi o 46.6%.</p> <p>Yn ystod haf 2021, ymgwymerodd Addysg a Gwellu Iechyd Cymru ag ymweliad arolygu. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi cael eu cwblhau ac mae sesiynau hyfforddiant wythnosol yn barhaus.</p> <p>Mae swydd-ddisgrifiad wedi'i greu ar gyfer Uwch-nyrs Ymarfer Proffesiynol gyda'r nod o benodi ar ddechrau'r flwyddyn newydd.</p> <p>Yn ogystal â'r cyfleoedd hyfforddi hyn, mae Grŵp Ardal Integredig Merthyr a Chynon yn cydweithio â Gwelliant Cymru mewn perthynas â chefnogi llif. Mae dull hyfforddi'n cael ei ddarparu gyda'r nod o</p>	<p>Adran Achosion Brys</p>	<p>gorfodol bob mis trwy rhaglen wella Ysbyty'r Tywysog Siarl Rhoddir diweddariad pellach ar welliant, gyda thystiolaeth</p> <p>Y dyddiad targed ar gyfer penodi uwch-nyrs ymarfer proffesiynol yw 14 Ionawr 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymwreiddio sgiliau gwella yn y gweithlu. Mae enghraifft o gyfleoedd hyfforddi o'r fath yn cynnwys gweithio gyda Toyota. Mae manylion wedi'u hatodi yn <b>Atodiad 3</b> .		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar ymatebion staff llai ffafriol i rai o'r cwestiynau yn holiadur ar-lein AGIC, fel y nodir yn adran 'Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.		Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud yn uniongyrchol sy'n cael effaith ar y dull arwain yn yr adran. Mae'r rhain yn cynnwys arweinydd clinigol newydd ar gyfer yr Adran Achosion Brys (wedi'i benodi dim ond ychydig ddyddiau cyn ymweliad AGIC) ac arweinyddiaeth nyrsio newydd ar y safle ac ar lefel y Grŵp Ardal Integredig. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'r tîm arwain ailosod y cydberthnasau gweithio â'r holl grwpiau staff. Bydd hyn yn cymryd amser i staff gael hyder ynghylch dilysrwydd y newidiadau, ond yn seiliedig ar ymgysylltiad uwch â staff, amser a dreuliwyd gan y timau arwain yn yr adran ac i ffwrdd ohoni, ymddygiad enghreifftiol, a dull ymgysylltu a	Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ardal	Penodiadau newydd wedi'u gwneud  Rhaglen arweinyddiaeth bwrpasol ar waith a chynlluniau'n barhaus i 2023

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>chyfathrebu penodol, rydym yn hyderus y bydd staff y nodi rheolaeth ac arweinyddiaeth well yn gyflym.</p> <p>Mae buddsoddiadau mewn arweinydd y gweithlu a datblygu sefydliadol amser llawn ac arweinydd cyfathrebu wedi eu gwneud i gefnogi rhaglen wella Ysbyty'r Tywysog Siarl i ganolbwyntio ar welliannau diwylliannol ac arweinyddiaeth.</p> <p>Mae'r rhaglen arweinyddiaeth wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ar draws tîm rheoli'r Adran Achosion Brys ac Ysbyty'r Tywysog Siarl yn fwy eang. Mae map trywydd a chynllun lefel uchel wedi cael eu datblygu.</p> <p>Wedi'u hatodi fel <b>Atodiad 4</b>.</p> <p>Mae'r arweinydd cyfathrebu wedi bod yn ymgysylltu â staff yn yr Adran Achosion Brys er mwyn llywio'r cynllun cyfathrebu. Wrth i'r cynllun cyfathrebu esblygu, mae camau ar unwaith megis cylchlythyr i</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>staff wedi dechrau, gan ddefnyddio adborth gan staff. Yn ogystal â hyn, mae cardiau agwedd wedi cael eu dylunio i ennill dealltwriaeth o sut mae staff yn teimlo a sut maent yn mesur yn erbyn llesiant. Mae'r rhai wedi cael eu cwblhau ac yn barod i gael eu dosbarthu.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Catherine Roberts**

**Swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ardal**

**Dyddiad: 19/11/2021**